



department for
**culture, media
and sport**

Ymgynghoriad ar Eithriadau i'r Ddeddf Recordiadau Fideo ac ar Hysbysebu mewn Sinemâu

9fed Mai 2012

Ein nod yw gwella ansawdd bywyd i bawb drwy weithgareddau diwylliannol a gweithgareddau chwaraeon, helpu i sicrhau rhagoriaeth a hyrwyddo'r diwydiant twristiaeth, y diwydiant creadigol a'r diwydiant hamdden.

Cynnwys

	Paragraffau
Cyflwyniad	1.1-1.5
Crynodeb Gweithredol	2.1-2.20
Sut i ymateb	3.1-3.7
Rhan A: Rheoleiddio Hysbysebu mewn Sinemâu	
Trosolwg o'r sefyllfa reoleiddio bresennol	4.1-4.2
Rôl Bwrdd Dosbarthu Ffilmiau Prydain (BBFC) mewn perthynas â dosbarthu ffilmiau a hysbysebion sinema	4.3-4.5
Cod CAP a rôl y Gymdeithas Hysbysebion Sinema (CAA)	4.6-4.10
Y polisi	4.11-4.13
Lefelau priodol o ddiogelwch i ddefnyddwyr	4.14-4.19
Rheolaethau ychwanegol - gosod cyfyngiadau ar sgrinio hysbysebion mewn sinemâu	4.20-4.23
Newid posibl i'r broses reoleiddio - costau ac effaith	4.24-4.29
Barn y diwydiant/BBFC	4.30-4.38
Yr opsiynau - crynodeb	4.39-4.41
Yr opsiynau - yn fanylach	4.42-4.50
Cwestiynau'r ymgynghoriad ar gyfer Rhan A	Tud. 22-23
Gwefannau defnyddiol	Tud. 23-24
Rhan B: Eithriadau i'r broses ddosbarthu yn Neddf Recordiadau Fideo 1984	
Trosolwg o'r sefyllfa reoleiddio bresennol	5.1-5.5
Pryderon a godwyd ynghylch y categorïau a eithrir	5.6-5.12
Dosbarthiadau ar gyfer cynnwys darlledu neu gynnwys ar-lein	5.13-5.22
Y polisi	5.23-5.28
Yr opsiynau - crynodeb	5.29-5.31
Yr opsiynau - yn fanylach	5.32-5.53
Casgliad	5.54-5.55
Cwestiynau'r ymgynghoriad ar gyfer Rhan B	Tud. 39-42
Atodiad A: Darn o adran 2 o'r Ddeddf Recordiadau Fideo	Tud. 43
Atodiad B: Rhestr o'r sefydliadau yr ymgynghorwyd â hwy	Tud. 44

Cyflwyniad

1.1 Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar ddau fater: a ddylid gwneud newidiadau i'r eithriadau rhag dosbarthu a nodir yn adran 2 o Ddeddf Recordiadau Fideo 1984 ac a ddylid diwygio Deddf Trwyddedu 2003 i ddileu unrhyw ofyniad sydd ar Fwrdd Dosbarthu Ffilmiau Prydain (BBFC) i gyflawni rôl o ran rhoi dosbarthiad oedran i hysbysebion a ddangosir mewn sinemâu.

1.2 Bydd yr ymgynghoriad hwn o ddiddordeb i amrywiaeth eang o randdeiliaid gan gynnwys cynhyrchwyr, cyhoeddwyr a chyflenwyr cynnwys a ryddheir ar ffurf recordiadau fideo copi caled (DVDs, Blu-ray, VHS ac ati), asiantaethau hysbysebu, cymdeithasau masnach, gweithredwyr sinemâu, manwerthwyr, cyrff dosbarthu, asiantaethau gorfodi, grwpiau defnyddwyr, grwpiau plant, rhieni ac athrawon.

1.3 Mae'r asesiadau effaith ar gyfer yr opsiynau polisi a drafodir yn yr ymgynghoriad hwn ar gael ar wefan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn:

<http://www.culture.gov.uk/consultations/default.aspx>

Cyhoeddwyd: 9 Mai 2012

Dylid ymateb erbyn: 1 Awst 2012

CRYNODEB GWEITHREDOL

2.1 Diben yr ymgynghoriad hwn yw ceisio barn a thystiolaeth ar y canlynol:

- a ddylid gwneud newidiadau i'r eithriadau cyfredol rhag dosbarthu statudol a nodir yn adran 2 o Ddeddf Recordiadau Fideo 1984
- a ddylid diwygio Deddf Trwyddedu 2003 i ddileu unrhyw ofyniad sydd ar Fwrdd Dosbarthu Ffilmiau Prydain (BBFC) i gyflawni rôl o ran rhoi dosbarthiad oedran i hysbysebion a ddangosir mewn sinemâu

2.2 Mae'r rhain yn faterion ar wahân ond maent o ddiddordeb i nifer o randdeiliaid cyffredin ac fe'u cysylltir hefyd drwy'r themâu diogelu plant a diogelu defnyddwyr. Mae croeso i ymatebwyr gynnig barn a thystiolaeth ar un o'r materion hyn - yn hytrach na'r ddau ohonynt - os byddai'n well ganddynt wneud hynny.

2.3 Mae gan gynulleidfaoedd yn y DU archwaeth fawr am gynnwys fideo, boed yn cael ei sgrinio yn y sinema neu'n cael ei fwynhau gartref ar DVD neu fformatau eraill. Gwerthwyd dros 169 miliwn o docynnau sinema yn y DU yn 2010¹ a gwariwyd cyfanswm o £184m ar hysbysebion sinema. O ran adloniant yn y cartref, rhyddhawyd 7999 o deitlau ar DVD a Blu-ray i fanwerthwyr prif ffrwd yn y DU yn 2011 a chafwyd cyfanswm gwerthiannau o dros £2 biliwn².

2.4 Mae'r Llywodraeth yn ymrwymedig i weithredu argymhellion adroddiad annibynnol gan Reg Bailey, "Letting Children be Children", a gyhoeddwyd y llynedd. Rydym am gefnogi rhieni, a defnyddwyr yn gyffredinol, drwy sicrhau bod ganddynt wybodaeth glir am y cynnwys y maent yn ei wyllo. Rydym hefyd am gael gwared ar fiwrocratiaeth a sicrhau bod gennym amgylchedd rheoleiddio sy'n cefnogi ein diwydiannau adloniant - gan roi cyfle i gynhyrchwyr cynnwys arloesi, creu profiadau gwych i gynulleidfaoedd a sicrhau bod y sector yn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl i economi'r DU. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ystyried y ffordd orau o sicrhau'r cydbwysedd hwn.

Rhan A: Hysbysebu mewn Sinemâu

2.5 O dan Ddeddf Trwyddedu 2003, caiff sinemâu eu hawdurdodi i ddangos ffilmiau nodweddiadol o dan delerau trwyddedau a roddir gan eu hawdurdod lleol. Mae'n rhaid i'r trwyddedau hyn gynnwys amodau sy'n gosod cyfyngiadau ar y plant³ a all weld ffilmiau yn unol ag unrhyw argymhellion a wnaed gan Fwrdd Dosbarthu Ffilmiau Prydain (BBFC), oni bai bod yr awdurdodau trwyddedu eu hunain yn gwneud argymhellion ynghylch rhoi mynediad i blant. Ni ddisgwylir y bydd y gofyniad hwn i "roi dosbarthiad oedran" i ffilmiau nodweddiadol a ddangosir yn y sinema yn newid.

¹ Blwyddlyfr Ystadegol Sefydliad Ffilm Prydain (BFI)

² Cymdeithas Fideo Prydain/The Official Charts Company/West 10

³ At ddibenion yr ymgynghoriad hwn, mae "plant" yn cyfeirio'n gyffredinol at unigolion o dan 18 oed. Mae "plant iau" yn cyfeirio'n gyffredinol at blant 12 oed neu iau

2.6 Fodd bynnag, o dan y Ddeddf Trwyddedu, mae hefyd yn ofynnol i roi dosbarthiad oedran i hysbysebion sinema yn yr un ffordd os cânt eu dangos gyda phrif ffilm nodweddi. Yn ogystal â'r broses statudol hon, mae pob hysbyseb sinema yn dal i fod yn gwbl ddarostyngedig i God Pwyllgor Arferion Hysbysebu (CAP) yr Awdurdod Safonau Hysbysebu ar gynnwys nas darlledir a'r gweithdrefnau cyn clirio sy'n ofynnol o dan drefniadau hunanreoleiddio'r diwydiant er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â Chod CAP.

2.7 Y sail resymegol dros y ddeddfwriaeth bresennol yw sicrhau nad yw defnyddwyr, yn enwedig plant, yn gweld hysbysebion â chynnwys a fyddai'n amhriodol i'r dosbarthiad oedran a roddwyd ar gyfer y ffilm sy'n cael ei sgrinio. Dim ond materion yn ymwneud â niwed, tramgwydd a chyfreithlondeb sydd y tu allan i reolau hysbysebu a gaiff eu hystyried gan y BBFC fel rhan o'r broses ddosbarthu. Mae Cod CAP yn ei gwneud yn ofynnol i hysbysebwr llynu wrth reolau yn ymwneud â diogelu defnyddwyr a chyfrifoldeb cymdeithasol gan sicrhau nad yw hysbysebion, ymhlith pethau eraill, yn gamarweiniol, yn niweidiol nac yn dramgwyddus ac - fel gyda rôl y BBFC - bod plant yn cael eu diogelu'n briodol. Mae'n rhaid i hysbysebion fod yn gymdeithasol gyfrifol hefyd. Mae'r egwyddorion cyffredinol hyn yn gymwys ni waeth pa gynnyrch sy'n cael ei hysbysebu.

2.8 Mae'r diwydiant o'r farn bod hyn yn gyfystyr â 'system glirio ddeuol' ar gyfer hysbysebion sinema a all arwain at ddryswch, dyblygu ymdrechion mewn llawer o achosion, a gwariant ychwanegol er nad yw'n gwella'r broses o ddiogelu defnyddwyr na phlant.

2.9 Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn a thystiolaeth ar y broses o reoleiddio hysbysebion sinema a'r ddadl dros ddileu'r gofyniad presennol ar y BBFC i roi dosbarthiad oedran i hysbysebion sinema pan gânt eu dangos gyda phrif ffilm nodweddi. Cynigir dau brif opsiwn i'w hystyried:

- Gadael y system bresennol fel y mae
- Dileu'r gofyniad sydd ar y BBFC i roi dosbarthiad oedran i hysbysebion sinema pan gânt eu dangos gyda ffilm nodweddi yn y sinema; a dibynnu yn y dyfodol ar system hunanreoleiddio Cod CAP, a orfodir gan yr Awdurdod Safonau Hysbysebu

2.10 Ar hyn o bryd, credwn fod dadl gref dros symleiddio'r broses o reoleiddio hysbysebion sinema. O ystyried y tebygrwydd rhwng Cod CAP a'r gwaith craffu a wneir gan y BBFC cyn rhyddhau hysbysebion, ni ddylai'r cyhoedd weld unrhyw newid yn y profiad a gânt yn y sinema os bydd y BBFC yn rhoi'r gorau i'r gwaith o glirio hysbysebion sinema. Fodd bynnag, rydym yn cadw meddwl agored a hoffem glywed yr ystod lawn o safbwyntiau ar y ddau opsiwn ac, yn wir, unrhyw opsiynau eraill y gallai ymatebwyr eu hystyried yn briodol.

Rhan B - Eithriadau i'r Ddeddf Recordiadau Fideo

2.11 Mae Deddf Recordiadau Fideo 1984 yn rheoli'r cyflenwad o DVDs, disgiau Blu-ray a gweithiau fideo eraill ar ffurf copi caled yn y DU. O dan y Ddeddf, rhaid i gynnwys penodol sydd wedi'i ffilmio a gemau fideo penodol gael eu cyflwyno i'r BBFC roi dosbarthiad oedran statudol iddynt cyn y gellir eu cyflenwi fel cynnyrch ffisegol i'r cyhoedd. Mae rhai mathau o fideos - er enghraifft fideos sy'n ymwneud

yn bennaf â cherddoriaeth, chwaraeon, crefydd neu addysg - wedi'u heithrio rhag y gofyniad statudol hwn o dan y ddeddf ac nid oes rhaid iddynt gael eu cyflwyno i'r BBFC roi dosbarthiad oedran iddynt oni bai eu bod yn cynnwys deunydd i oedolion, fel rhyw, trais neu ymddygiad troseddol. Fel arfer, byddai'r BBFC yn rhoi dosbarthiad "15" neu "18" i'r cyfryw gynnwys er y gallai benderfynu roi dosbarthiad is ar ôl ystyried y cynnwys hwnnw yn erbyn ei ganllawiau sy'n rhoi sylw i'r cyd-destun hefyd.

2.12 Felly nid oes rhaid i'r BBFC roi dosbarthiad oedran i gynhyrchion fideo sydd wedi'u heithrio a gallant gael eu gwerthu i ddefnyddwyr o unrhyw oedran. Mewn ymateb i bryderon a godwyd ynghylch cynnwys rhai o'r gweithiau fideo hyn sydd wedi'u heithrio ar hyn o bryd - yn enwedig y rheini yn y genres cerddoriaeth a chwaraeon - mae'r Llywodraeth yn ymrwymedig i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar briodoldeb yr eithriadau hyn yn yr amgylchedd sydd ohoni. Roedd cynnal adolygiad o'r eithriad sy'n ymwneud â fideos cerddoriaeth hefyd yn un o'r argymhellion penodol a wnaed yn adolygiad Reg Bailey. Roedd yr adolygiad hwnnw'n nodi, er enghraifft, fod gan rai rhieni bryderon ynghylch y cyfeiriadau at ryw a thrais mewn rhai caneuon, dawnsfeydd yr ystyriwyd eu bod yn rhywioledig a'r modd yr oedd rolau rhyw yn cael eu stereoteipio.

2.13 Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ynghylch a yw'r eithriadau cyfredol ar gyfer gweithiau fideo ym meysydd cerddoriaeth, chwaraeon, crefydd ac addysg yn ymateb synhwyrol a chymesur neu a ddylem fynd ati nawr i fabwysiadu dull gweithredu gwahanol sy'n adlewyrchu'r newidiadau yn y diwydiant cynnwys, y newidiadau yn y farchnad a'r newidiadau diwylliannol sydd wedi digwydd ers i'r eithriadau ddod i rym pan basiwyd y Ddeddf Recordiadau Fideo ryw 28 mlynedd yn ôl.

2.14 Mae Rhan 2 o'r ymgynghoriad hwn yn cynnig pedwar opsiwn posibl i'w hystyried o ran polisi:

- Cadw'r eithriadau presennol fel y maent
- Dileu'r eithriadau presennol a sicrhau bod fideos cerddoriaeth, chwaraeon, crefyddol ac addysgol yn ddarostyngedig i ddosbarthiad oedran statudol ar gyfer ffilmiau gan y BBFC. Bydd hyn yn galw am ddeddfwriaeth sylfaenol
- Gostwng y trothwyon statudol presennol ar gyfer eithrio fideos cerddoriaeth, chwaraeon, crefyddol ac addysgol fel bod dosbarthiad oedran yn cael ei roi i gynhyrchion sy'n debygol o fod yn anaddas i blant iau (unrhyw beth fyddai'n cael dosbarthiad oedran o 12 neu uwch i bob pwrpas); ond caiff y rheini sy'n debygol o fod yn addas i gynulleidfa oedd ehangach eu heithrio o hyd. Bydd hyn yn galw am is-ddeddfwriaeth
- Gofyn i rannau eraill o'r diwydiant fideo gyflwyno cynllun labelu hunanreoleiddiol sy'n rhoi cyngor i rieni ac sy'n debyg i'r Gwasanaeth Cyngor i Rieni a ddatblygwyd gan y diwydiant cerddoriaeth. Caniatáu i'r diwydiant hunanreoleiddio'r cynhyrchion sy'n cael eu heithrio ar hyn o bryd heb fod angen unrhyw newidiadau deddfwriaethol

2.15 Ein dewis opsiwn ar hyn o bryd yw gostwng y trothwy eithrio drwy ddiwygio'r Ddeddf Recordiadau Fideo drwy is-ddeddfwriaeth. Byddai hyn, i bob pwrpas, yn golygu cyflwyno dosbarthiadau oedran statudol ar gyfer pob cynnyrch sy'n debygol o achosi pryder tra'n osgoi beichiau rheoleiddiol newydd ar gyfer cyfran fawr o'r farchnad. Mae'r dystiolaeth a gasglwyd hyd yma yn awgrymu bod y rhan fwyaf o'r cynhyrchion sy'n cael eu heithrio ar hyn o bryd yn addas i'w cyflenwi'n eang ac y byddai'r BBFC yn eu dosbarthu felly. Fodd bynnag, rydym yn cadw meddwl agored am y mater hwn a hoffem glywed yr ystod lawn o farnau a safbwyntiau er mwyn ein helpu i ddod o hyd i'r ateb gorau posibl.

2.16 Dylid nodi hefyd fod y Llywodraeth eisoes wrthi'n dod â newidiadau i'r Ddeddf Recordiadau Fideo i rym er mwyn cyflwyno system reoleiddio newydd ar gyfer gemau fideo. O dan y system newydd, caiff gemau i blant iau eu heithrio ond mae'r trothwy dosbarthu wedi'i ostwng er mwyn sicrhau y bydd yn rhaid i'r system Gwybodaeth Gemau Pan-Ewropeaidd (PEGI), a weinyddir gan y Cyngor Safonau Fideo, roi dosbarthiad oedran i gemau fideo sy'n addas ar gyfer unigolion 12 oed a throsodd yn unig. O bosibl, gallai cynhyrchwyr gemau sy'n addas ar gyfer unigolion 12 oed a throsodd yn unig hawlio eithriad rhag cael dosbarthiad oedran o hyd os yw eu cynhyrchion yn ymwneud yn bennaf â cherddoriaeth, chwaraeon, crefydd neu addysg ar yr amod nad yw'r gemau hyn yn cynnwys deunydd a nodir yn adran (2) 2 o'r Ddeddf Recordiadau Fideo, sef rhyw, trais ac ymddygiad troseddol. Gallai'r cyfryw gynhyrchion gael eu heffeithio gan benderfyniad i ddileu'r eithriadau cyfredol ar gyfer y genres hyn. Nid yw'n glir faint o gemau fideo a allai fod yn berthnasol yma, os o gwbl. Credir y gallai'r niferoedd fod yn gymharol fach ond rydym yn gobeithio cael cadarnhad ynghylch y sefyllfa drwy'r ymgynghoriad.

2.17 Dim ond copïau ffisegol o gynnwys fideo a gwmpesir gan y Ddeddf Recordiadau Fideo. Yn gynyddol, fodd bynnag, mae defnyddwyr - ac efallai pobl ifanc yn enwedig - yn cael gafael ar eu cynnwys ar-lein drwy amrywiaeth o lwyfannau a dyfeisiau digidol. Roedd y pryderon hynny a godwyd gan rieni ac a ddisgrifiwyd yn Adolygiad Bailey yn ymwneud yn benodol â fideos sy'n hyrwyddo cerddoriaeth. Gellir tybio'n rhesymol bod llawer o bobl ifanc yr un mor debygol o weld y fideos hyn ar-lein ag yr ydynt o'u gweld yn y byd all-lein. Hoffem weld yr un wybodaeth a'r un labelau a welir all-lein yn cael eu darparu ar-lein ac mae'r ymgynghoriad hwn yn disgrifio rhai o'r cynlluniau dosbarthu a labelu gwirfoddol sydd ar gael ar gyfer cynnwys ar-lein. Gwahodddwn farn ar y cyfryw gynlluniau.

2.18 Byddem yn ddiolchgar i gael sylwadau a barn ar yr holl gynigion a nodir yn yr ymgynghoriad hwn ynghyd ag unrhyw dystiolaeth ategol y gallai fod gennyh. Byddem hefyd yn croesawu unrhyw syniadau neu argymhellion eraill ar gyfer newid a fyddai'n helpu'r Llywodraeth i fynd i'r afael â'r materion polisi a drafodwyd gennym.

2.19 Byddai data ychwanegol ar y diwydiant a'r farchnad yn arbennig o ddefnyddiol o ran cymhwyso'r eithriadau o dan y Ddeddf Recordiadau Fideo. Byddem hefyd yn hoffi clywed am unrhyw ganlyniadau anfwriadol neu oblygiadau eraill a allai godi yn eich barn chi yn sgil mabwysiadu unrhyw un o'r dewis opsiynau a nodwyd.

2.20 Ceir cyfres o gwestiynau i helpu i lywio'r ymgynghoriad hwn ar ddiwedd pob adran. Nid oes angen ymateb i bob cwestiwn - dim ond y rheini y mae ymatebwyr

yn teimlo y gallant eu hateb yn ystyrllon. Gofynnwn am ymatebion llawn a manwl lle y bo'n bosibl.

Rhestr o Atodiadau

Atodiad A: Darn o'r Ddeddf Recordiadau Fideo

Atodiad B: Rhestr o'r sefydliadau yr ymgynghorwyd â hwy

Atodiad C: Y Saith Maen Prawf Ymgynghori

SUT I YMATEB

3.1 Wrth ymateb, nodwch a ydych yn ymateb fel unigolyn neu'n cynrychioli barn sefydliad. Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, nodwch yn glir pwy mae eich sefydliad yn ei gynrychioli a sut y gwerthuswyd safbwyntiau ei aelodau.

3.2 Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar 9^{fed} Mai 2012. Bydd y cyfnod ymgynghori yn para 12 wythnos a'r dyddiad cau ar gyfer ymatebion yw 1^{af} Awst 2012. Fodd bynnag, byddem yn gwerthfawrogi pe gallech anfon eich ymatebion atom cyn gynted â phosibl er mwyn ein helpu i gyflymu'r broses o ystyried yr ymatebion yn llawn.

3.3 Dylid anfon ymatebion i'r ymgynghoriad hwn ac ymholiadau yn ei gylch i:

AdsExempt@culture.gsi.gov.uk

Neu drwy'r post i:

Advertising and Exemption Consultation
Department for Culture, Media and Sport
2-4 Cockspur Street
London SW1Y 5DH

3.4 Ceir rhestr o'r sefydliadau hynny yr ymgynghorwyd â hwy'n uniongyrchol yn Atodiad B ond byddem yn croesawu awgrymiadau am sefydliadau eraill a allai ddymuno cymryd rhan yn y broses ymgynghori.

3.5 Gellir gweld yr ymgynghoriad hwn yn:

<http://www.culture.gov.uk/consultations/default.aspx>

3.6 Caiff yr ymgynghoriad hwn ei gynnal yn unol â'r Cod Ymarfer ar Ymgynghori a'r saith maen prawf ymgynghori a restrir yn Atodiad C.

3.7 Ar gyfer ymholiadau sy'n ymwneud â'r broses (ymdrin ag) ymgynghori, anfonwch e-bost i:

Enquiries@culture.gsi.gov.uk, gan nodi "Consultation on Exemptions to the Video Recordings Act and on Cinema Advertising" fel pennawd.

RHAN A: RHEOLEIDDIO HYSBYSEBU MEWN SINEMÂU

Trosolwg o'r sefyllfa reoleiddio bresennol

4.1 Mae Bwrdd Dosbarthu Ffilmiau Prydain (BBFC) yn rhoi dosbarthiad oedran i ffilmiau a hysbysluniau a ddangosir mewn sinemâu a hefyd hysbysebion a gyflwynir i'w rhyddhau mewn theatrau (arddangos mewn sinemâu) - proses a gychwynnir gan yr awdurdodau lleol sy'n trwyddedu sinemâu o dan Ddeddf Trwyddedu 2003. Mae'r BBFC yn penderfynu ar y dosbarthiad oedran priodol ar gyfer y ffilm, yr hysbyslun, yr hysbyseb - ac mae hyn, yn ei dro, yn pennu sut y caiff y dangosiad ei reoli mewn sinemâu er mwyn cyfyngu ar y gynulleidfa sy'n gwyllo'r deunydd hwnnw yn unol â dosbarthiad oedran y BBFC. O dan y system hon, caiff hysbysebion sinema eu cyflwyno i'r BBFC roi dosbarthiad oedran iddynt cyn y gellir eu dangos yn y sinema gyda'r ffilm nodwed.

4.2 Yn ogystal â'r broses ddosbarthu statudol hon, caiff hysbysebion sinema yn y DU eu rheoli'n gaeth drwy system hunanreoleiddio gorfodol a weinyddir gan yr Awdurdod Safonau Hysbysebu (ASA).

Rôl y BBFC mewn perthynas â dosbarthu ffilmiau a hysbysebion sinema

4.3 Mae'r BBFC yn gwmni annibynnol, nid er elw sy'n dosbarthu ffilmiau a gweithiau fideo yn seiliedig ar Ganllawiau Dosbarthu cyhoeddedig. Gwna hyn yn bennaf er mwyn cyflawni ei rôl fel corff dosbarthu dynodedig o dan Ddeddf Recordiadau Fideo 1984. Lluniwyd Canllawiau'r BBFC yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus eang (aeth y BBFC ati i geisio barn 20,000 o bobl yn ystod ei ddau ymgynghoriad diweddaraf ar Ganllawiau yn 2005 a 2009).

4.4 Mae'r BBFC yn rhoi dosbarthiad oedran i hysbysebion sinema yn unol â'r canllawiau hyn sy'n adlewyrchu barn y cyhoedd a'r risg y gallai'r hysbysebion beri niwed i'r sawl sy'n eu gwyllo. Mae diogelu plant wrth wraidd Canllawiau'r BBFC a'i ddosbarthiadau oedran sef 'U', 'PG', '12A', '15' a '18'. Wrth wneud penderfyniadau dosbarthu, mae'r BBFC yn ystyried a all y deunydd, naill ai ar ei ben ei hun, neu ar y cyd â chynnwys tebyg arall, achosi unrhyw niwed posibl yn y categori dan sylw.

4.5 Mae hyn nid yn unig yn cynnwys unrhyw niwed a all ddeillio o ymddygiad darpar wylwyr, ond hefyd unrhyw 'niwed moesol' a all gael ei achosi drwy, er enghraifft, ddadsensiteiddio darpar wylwyr i effeithiau trais, diraddio ymdeimlad darpar wylwyr o empathi, annog barn annynol am bobl eraill, atal ymagweddau cymdeithasol cadarnhaol, annog ymagweddau gwrthgymdeithasol, atgyfnerthu ffantasiau afiach, neu erydu ymdeimlad o gyfrifoldeb moesol. Gall niwed hefyd gynnwys rhwystro datblygiad cymdeithasol a moesol, ystumio ymdeimlad gwylwyr o'r hyn sy'n dda a'r hyn sy'n ddrwg, a chyfyngu ar ei allu i ddangos tosturi, yn enwedig ymhlith plant.

Cod CAP a rôl y Gymdeithas Hysbysebion Sinema

4.6 Yn ogystal â system y BBFC o roi dosbarthiad oedran a ddisgrifir uchod, mae'n rhaid i bob hysbyseb sinema gydymffurfio â Chod y Pwyllgor Arferion Hysbysebu (CAP) ar gynnwys nas darlledir, a orfodir gan yr ASA, sy'n sicrhau bod

hysbysebion yn gyfreithlon, yn weddus, yn onest ac yn gywir ac yn ystyried yr amgylchedd y caiff yr hysbysebion eu dangos ynddo.

4.7 Mae Cod CAP yn ei gwneud yn ofynnol i hysbysebwr lynu wrth reolau yn ymwneud â diogelu defnyddwyr a chyfrifoldeb cymdeithasol (gan sicrhau nad yw hysbysebion, ymhlith pethau eraill, yn gamarweiniol, yn niweidiol nac yn dramgwyddus a bod plant yn cael eu diogelu'n briodol). Nodir hyn yn fanylach isod.

4.8 O ran y gwaith o orfodi'r rheolaethau hyn, mae gan yr ASA amrywiaeth o gosbau y gellir eu rhoi ar gyfer hysbysebion nas darlledir er mwyn sicrhau bod hysbysebwr yn cydymffurfio â Chod CAP, gan gynnwys:- cyhoeddusrwydd niweidiol; cynghori aelodau i roi'r gorau i ddarparu gwasanaethau i hysbysebwr nad ydynt yn cydymffurfio neu atal mynediad i ofod hysbysebu; cymdeithasau masnach a chyrrff proffesiynol CAP yn tynnu breintiau masnachu a gynigir i'w haelodau yn ôl ac, mewn achosion eithriadol, gwahardd hysbysebwr rhag dod yn aelodau.

4.9 Er mwyn sicrhau bod hysbysebion sinema yn cydymffurfio â Chod CAP, mae'r diwydiant hysbysebion sinema yn ariannu corff hunanreoleiddio, sef y Gymdeithas Hysbysebion Sinema (CAA), i glirio pob hysbyseb sinema ymlaen llaw. Mae'r CAA yn defnyddio Panel Copi i ymgymryd â'r gwaith cyn clirio hwn sy'n cynnwys sicrhau mai dim ond â ffilmiau yr ystyrir eu bod yn briodol o ran oedran y caiff hysbysebion eu dangos. Gall Panel Copi'r CAA ofyn i newidiadau gael eu gwneud i hysbysebion, eu cyfyngu i ffilmiau nodwedd y rhoddwyd dosbarthiad oedran penodol iddynt gan y BBFC, neu wrthod eu clirio.

4.10 Er bod y system a ddefnyddir gan y BBFC i roi dosbarthiadau oedran i hysbysebion sinema yn sicrhau nad yw defnyddwyr, yn enwedig plant, yn gweld hysbysebion â chynnwys na fyddai'n briodol i'r ffilm sy'n cael ei sgrinio y rhoddwyd dosbarthiad oedran iddi gan y BBFC, caiff y materion a ystyrir gan y sefydliad wrth roi dosbarthiad eu cyfyngu i'r rheini sy'n ymwneud â niwed, trosedd a chyfreithlondeb y tu allan i reolau hysbysebu. Nid yw'n ystyried y rheolaethau hysbysebu ehangach sy'n ei gwneud yn ofynnol i hysbysebion fod yn gyfreithlon, yn weddus, yn onest ac yn gywir, nac ychwaith reolau penodol sy'n cwmpasu meysydd fel hysbysebion sydd wedi'u hanelu at blant, alcohol a hapchwarae, yr amgylchedd a chynhyrchion ariannol - fel y nodir yn y Cod CAP.

Y polisi

4.11 Mae'r system bresennol o reoleiddio hysbysebion sinema yn ei gwneud yn ofynnol i'r BBFC roi dosbarthiad oedran i hysbysebion tra bod hysbysebion sinema yn dal i fod yn llwyr ddarostyngedig i god hysbysebion nas darlledir (Cod CAP) yr Awdurdod Safonau Hysbysebu a'r gweithdrefnau cyn clirio sy'n ofynnol o dan drefniadau hunanreoleiddio'r diwydiant er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â Chod CAP.

4.12 Mae'r diwydiant sinema o'r farn bod system y BBFC o roi dosbarthiadau oedran i hysbysebion, sy'n ofynnol ar hyn o bryd o dan Ddeddf Trwyddedu 2003, wedi creu system rheoleiddio dwbl sy'n golygu mai hysbysebion sinema yw'r unig

gyfrwng lle mae dau gorff gwahanol - y BBFC a'r CAA - yn craffu ar hysbysebion cyn iddynt gael eu dangos i'r cyhoedd.

4.13 Yn ôl y diwydiant, gall y 'system glirio ddeuol' hon arwain at ddryswch, ac mae'n dyblygu ymdrechion mewn llawer o achosion ac yn arwain at wariant ychwanegol heb wella'r broses o ddiogelu defnyddwyr.

Lefelau priodol o ddiogelwch i ddefnyddwyr

4.14 Ar hyn o bryd mae'r CAA yn clirio pob hysbyseb sinema ymlaen llaw er mwyn sicrhau ei bod yn cydymffurfio â Chod CAP. Mae Cod CAP yn cynnwys rheolau amrywiol iawn sydd wedi'u cynllunio i sicrhau nad yw hysbysebion yn camarwain, yn niweidio nac yn peri tramgwydd. Mae'n rhaid i hysbysebion fod yn gymdeithasol gyfrifol hefyd. Mae'r egwyddorion cyffredinol hyn yn gymwys ni waeth pa gynnyrch sy'n cael ei hysbysebu.

4.15 Mae Cod CAP hefyd yn cynnwys rheolau penodol ar gyfer cynhyrchion a thechnegau marchnata penodol. Yn eu plith mae rheolau ar gyfer diodydd alcoholig, honiadau ym maes iechyd a harddwch, plant, meddyginiaethau, cynhyrchion ariannol, honiadau'n ymwneud â'r amgylchedd, hapchwarae, marchnata uniongyrchol a gwobrau a hyrwyddiadau. Mae'r rheolau hyn yn cynnig haen ychwanegol o ddiogelwch i ddefnyddwyr ar ben y gyfraith diogelu defnyddwyr gyda'r nod o sicrhau bod hysbysebion a ddangosir yn y DU yn gyfrifol.

4.16 Felly, mae Cod CAP yn cynnwys rheolau caeth er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn arbennig yn cael eu diogelu'n briodol. Cynlluniwyd y rheolau er mwyn atal plant rhag cael eu denu tuag at niwed moesol, corfforol neu seicolegol, ac maent yn adlewyrchu normau cymdeithas o ran yr hyn sy'n briodol i blant ei weld a'i glywed.

4.17 Mae'r rheolau yn atal hysbysebion rhag tanseilio awdurdod rhieni neu osod pwysau annheg ar blant i brynu cynhyrchion. Ni ddylai hysbysebion sydd wedi'u hanelu at blant eu hannog i boeni eu rhieni a rhaid iddynt nodi'n glir bod angen caniatâd rhiant os gallai gwobr neu gymhelliant achosi gwrthdaro rhwng dymuniad plentyn ac awdurdod rhiant. I'r un graddau, ni ddylai'r cyfryw hysbysebion wneud i blant deimlo'n israddol na theimlo nad ydynt yn ddigon teyrngar os na fyddant yn prynu cynnyrch. Mae'r rheolau hefyd yn golygu na all hysbysebion ddangos plant yn ymddwyn yn beryglus nac yn siarad â dieithriaid, na'u hannog i wneud hynny.

4.18 Hefyd, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r rheolau hysbysebu sy'n ymwneud â chynhyrchion penodol megis bwyd ac alcohol wedi'u tynhau'n sylweddol mewn ymateb i bryderon cyhoeddus ynghylch gordewdra ymhlith plant ac yfed dan oed. Er enghraifft, mae Cod CAP yn cynnwys rheolau penodol sy'n nodi mai dim ond pan fo 75% o'r gynulleidfa gyfartalog yn debygol o fod yn 18 oed neu'n hŷn y gellir dangos hysbysebion alcohol.

4.19 Panel Ffilmiau ac Alcohol y CAA sy'n goruchwylio cydymffurfiaeth â rheolau Cod CAP ar alcohol. Mae'r CAA hefyd yn goruchwylio'r rheol wirfoddol sy'n nodi na

ddylai unrhyw rolyn hysbysebion sinema gynnwys mwy na 40% o hysbysebion alcohol. Mae aelodau hefyd yn ceisio gosod y rholiau hysbysebu gan sicrhau na ddangosir un hysbyseb alcohol ar ôl y llall. Nid yw'r ddwy 'reol' hyn yn rhan o God CAP; mae'r CAA o'r farn bod y rheolau yn enghreifftiau o'r busnes sinema yn mynd y tu hwnt i'r hyn sy'n ofynnol o dan God CAP.

Rheolaethau ychwanegol - gosod cyfyngiadau ar sgrinio hysbysebion mewn sinemâu

4.20 Mae Panel Copi'r CAA yn cymeradwyo hysbysebion o dan God CAP gan ystyried y gynulleidfa sy'n debygol o'u gweld. Efallai na fydd hysbysebion sy'n dderbyniol ar gyfer plant hŷn yn dderbyniol ar gyfer plant iau ac, yn yr un modd, efallai y bydd rhai hysbysebion yn briodol i rai yn eu harddegau ac oedolion yn unig, tra bod eraill yn addas i oedolion yn unig.

4.21 At hynny, caiff hysbysebion sinema eu gwerthu ar sail y ffilmiau y trefnir eu bod yn cael eu dangos gyda hwy. O ganlyniad, mae gan y CAA ddwy system cyn clirio ar waith i'w galluogi i osod cyfyngiadau ar sgrinio hysbyseb er mwyn sicrhau y caiff ei dangos i gynulleidfa o oedran priodol. Gall Panel Copi'r CAA wneud y canlynol:-

- gosod cyfyngiadau er mwyn sicrhau bod hysbyseb yn cael ei sgrinio gyda ffilmiau â chategori BBFC penodol ac uwch. Gellir gwneud hyn er mwyn diogelu plant, neu ar sail disgwyliadau'r cyhoedd o gynnwys yr hysbyseb yn gyffredinol
- ystyried genre'r ffilm y bwriedir dangos yr hysbyseb gyda hi a'r gynulleidfa y mae'r ffilm honno yn debygol o'i denu: er enghraifft, bydd y gynulleidfa sy'n gwyllo ffilm ddogfen â thystysgrif 'U' sy'n trafod cynhesu byd-eang yn wahanol iawn i'r gynulleidfa sy'n gwyllo'r ffilm *Arthur Christmas* sydd hefyd â thystysgrif 'U'

4.22 Er bod categori dosbarthiad oedran y BBFC yn cwmpasu ystod eang o ddeunydd, dywed Panel Copi'r CAA ei fod yn ymdrin â phob hysbyseb yn ofalus iawn gan ystyried tystysgrifau'r ffilmiau y caniateir iddynt gael eu dangos gyda hwy. Mae hyn yn arbennig o berthnasol gan y bydd cynulleidfaoedd wedi dewis gweld ffilm benodol ni waeth pa mor eithafol ydyw (yn seiliedig ar ddisgwyliadau ynghylch y genre penodol, y dosbarthiad penodol a roddwyd i'r ffilm a'r Cyngor i Ddefnyddwyr a'r Dosbarthiad Estynedig a roddir gan y BBFC). Fodd bynnag, i'r gwrthwyneb, ni fydd y gynulleidfa wedi dewis gweld yr hysbysebion a ddangosir gyda'r ffilm.

4.23 Dim ond pan fydd y Panel Copi o'r farn bod hysbyseb a gwblhawyd yn cydymffurfio â phob agwedd ar God CAP y bydd y CAA yn rhoi cymeradwyaeth derfynol. Fel gwiriad terfynol, caiff pob hysbyseb ei sgrinio ar ei ffurf theatraidd derfynol er mwyn cael cymeradwyaeth Panel Copi'r CAA cyn iddi gael ei dangos. Mae hyn yn sicrhau mai dim ond fersiynau cymeradwy hysbysebion a ddangosir ar sgriniau sinemâu.

Newid posibl i'r broses reoleiddio - costau ac effaith

4.24 Mae'r BBFC yn codi ffi drafod o £100 fesul hysbyseb a gyflwynir ynghyd â £7.00 am bob munud o gynnwys am y gwaith o roi dosbarthiad oedran i hysbysebion sinema. Mae'r BBFC hefyd yn codi 75% o'r ffi safonol am roi cyngor ar yr hysbysebion a wylir a ffi benodol o £100 am ystyried y sript.

4.25 Mae'r BBFC wedi nodi ei fod wedi codi'r ffioedd canlynol ar hysbysebwy sinema yn ystod y blynyddoedd diwethaf:-

2008	£71,000
2009	£67,000
2010	£71,000
2011	£72,000 (amcangyfrif BBFC ar gyfer y flwyddyn)

4.26 Nid yw'r CAA yn codi unrhyw ffi uniongyrchol am ei gwasanaethau cyn clirio. Ariennir y CAA gan ei haelodau, sy'n cynnwys Digital Cinema Media a Pearl & Dean yn y DU.

4.27 Digital Cinema Media (DCM) sy'n arwain y farchnad o ran hysbysebion sinema yn y DU. Mae'n darparu 2,799 o sgriniau ar gyfer hysbysebwy ar 477 o safleoedd. Mae DCM yn berchen ar 80.5% o'r farchnad hysbysebion sinema drwy arddangoswyr sy'n cynnwys ODEON, Cineworld, Vue, Picturehouse, IMAX, a llawer o sinemâu annibynnol. Mae Pearl & Dean yn rheoli nifer o safleoedd sinema yn y DU gan gynnwys gweithredwyr amblecs blaenllaw fel Empire, Showcase, Apollo ac AMC ac mae hefyd yn arwain y maes o ran gwerthu hysbysebion ar ran Sinemâu Annibynnol yn y DU. Mae'r CAA yn rhoi cyngor cyn clirio a chanllawiau ar sgriptiau fel rhan o'r gwasanaeth hwn.

4.28 Ariennir y broses o reoleiddio hysbysebion, a weinyddir gan yr ASA, gan hysbysebwy drwy ardoll ar wariant hysbysebu. O dan y system hon, mae hysbysebwy yn talu ardoll o £1 fesul £1,000 a werir ar hysbysebion mewn sinemâu (yn ogystal â hysbysebion yn y wasg, mewn cylchgronau, yn yr awyr agored ac ar y rhyngwyd). Caiff yr ardoll hon ei chynnwys gan asiantaethau hysbysebu mewn anfonebau a anfonir at eu cleientiaid ym maes y cyfryngau, ei chasglu gan yr asiantaethau a'i throsglwyddo i'r Bwrdd Cyllid Safonau Hysbysebu (asbof).

4.29 Mae hysbysebu mewn sinemâu yn sector cymharol fach (tua 1.5% o gyfanswm y gwariant ar hysbysebu) o gymharu â chyfryngau eraill (teledu, y wasg, ar-lein). Fodd bynnag, erys yn ffynhonnell refeniw sylweddol gyda chyfanswm y gwariant ar hysbysebion sinema yn cyrraedd £184m yn 2010.

Barn y diwydiant/BBFC

4.30 Yn ôl y diwydiant, mae Cod CAP a swyddogaethau rheoleiddio ychwanegol y CAA yn cyflawni swyddogaeth ymarferol y BBFC o roi dosbarthiad oedran, ac yn mynd ymhell y tu hwnt i hynny.

4.31 Codwyd pryderon hefyd ynghylch pa mor gyflym y gellir clirio hysbysebion sinema o dan y system bresennol. Yn ôl y diwydiant, nid yw hyn yn rhoi cymhelliant

i hysbysebwr ac asiantaethau a allai fod am ddefnyddio sinemâu ar gyfer eu hymgyrchoedd ac, yn benodol, efallai na fydd gan frandiau ac asiantaethau llai o faint y refeniw na'r adnoddau i ymgymryd â'r broses 'clirio deuol' hon, gan arwain at farchnad lai lluosog o ran hysbysebion sinema.

4.32 Dadl y diwydiant yw bod hyn yn parhau i leihau'r refeniw hysbysebu sy'n llifo i mewn i'r diwydiant sinema ac mae wedi amcangyfrif (ar y pen uchaf) bod gwahaniaeth o £31.5m rhwng y refeniw gwirioneddol a geir o hysbysebion sinema a'r refeniw posibl yn seiliedig ar y ffigurau a ddarparwyd gan Nielsen yn 2010 yn deillio o'r amser sydd ei angen i'w clirio.

4.33 Mae'r BBFC yn cytuno bod elfen sylweddol o reoleiddio dwbl yn y maes hwn ond ar hyn o bryd mae'n ofynnol iddo ymgymryd â'r swyddogaeth reoleiddio hon yn seiliedig ar ofynion statudol yn Neddf Trwyddedu 2003.

4.34 Hefyd, o ystyried y tebygrwydd rhwng y gwaith craffu a wneir gan y CAA a'r BBFC cyn rhyddhau hysbysebion a'r ffordd y mae'r ddwy system yn gorgyffwrdd, mae'r diwydiant a'r BBFC wedi nodi na fyddai'r cyhoedd yn gweld unrhyw newid yn y profiad a gânt yn y sinema yn eu barn hwy pe bai'r BBFC yn rhoi'r gorau i glirio hysbysebion sinema.

4.35 Hefyd, byddai'r ASA yn parhau, fel sy'n digwydd nawr, i ymateb i gwynion gan y cyhoedd, gwneud gwaith monitro i sicrhau y caiff Cod CAP ei gymhwyso'n gywir a, phe bai ymchwiliad yn cael ei gynnal, gyhoeddi penderfyniadau Cyngor yr ASA i'r hysbysebwr a Phanel Copi'r CAA.

4.36 Rydym yn cydnabod bod y system 'clirio dwbl' hon ar gyfer hysbysebion sinema yn fater sy'n peri pryder nid yn unig i'r diwydiant sinema ond hefyd i hysbysebwr ac asiantaethau oherwydd y gwaith gweinyddol a'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â dod â hysbysebion sinema i'r sgrin - rhywbeth nad yw'n bodoli ar gyfer cyfryngau eraill. Nodwn hefyd fod y diwydiant hysbysebion sinema a'r BBFC, gyda'i gilydd, o'r farn bod dadl gref dros symleiddio'r broses reoleiddio yn y maes hwn.

4.37 Mewn ymateb i fenter y Weithrediaeth Gwell Rheoleiddio i alluogi busnesau i ddylanwadu ar y ffordd y caiff y rheoliadau sy'n effeithio arnynt eu llunio a'u cyflwyno, aeth amrywiaeth o gyrff yn y diwydiant sinema ati i gyflwyno cynigion i'r Weithrediaeth yn amlinellu eu safbwyntiau ar sut y gellid gwella'r maes rheoleiddio hwn.

4.38 O ganlyniad, mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar y potensial i symleiddio'r broses o reoleiddio hysbysebion sinema a sicrhau bod dal i fod lefel uchel o ddiogelwch i ddefnyddwyr ar yr un pryd.

Rhan A - Yr Opsiynau - crynodeb

4.39 Nodir isod y ddau brif opsiwn:

- **Rhan A opsiwn 0 - Gadael pethau fel y maent**, ar y sail nad yw'r trefniadau presennol yn gosod beichiau diangen nac anghymesur ar y

diwydiant i'r graddau a fyddai'n cyfiawnhau newid deddfwriaethol a'u bod yn cynnig lefelau priodol o ddiogelwch i blant a defnyddwyr

- **Rhan A opsiwn 1 – diwygio Deddf Trwyddedu 2003 i ddileu unrhyw ofyniad sydd ar y BBFC i gyflawni rôl o ran rhoi dosbarthiad oedran i hysbysebion sinema** a chanolbwyntio ar system hunanreoleiddio Cod CAP ar y sail na fyddai hyn yn arwain at unrhyw fylchau o ran diogelwch defnyddwyr a phlant ac y byddai mesurau diogelwch addas yn cael eu cynnal ar gyfer system reoleiddio gymesur

4.40 Mae'n bosibl bod opsiynau eraill a chroesawn dystiolaeth a barn ar unrhyw atebion ymarferol eraill y gall ymatebwyr fod am eu cynnig.

4.41 O'r dystiolaeth a gyflwynwyd hyd yn hyn, ein dewis opsiwn yw dileu gofyniad y Ddeddf Trwyddedu sy'n nodi ei bod yn ofynnol i'r BBFC roi dosbarthiad oedran. Fodd bynnag, rydym yn cadw meddwl agored ac yn awyddus i ystyried yr ystod lawn o safbwyntiau ar y mater hwn.

Rhan A Yr Opsiynau – yn fanylach

Rhan A, Opsiwn 0: Dim newid

4.42 O dan yr opsiwn hwn, byddai hysbysebion sinema yn dal i gael eu cyfeirio at y BBFC er mwyn iddo roi dosbarthiad oedran iddynt ond byddent hefyd yn ddarostyngedig i broses hunanreoleiddio orfodol a oruchwylir gan yr ASA.

4.43 Mae'r system hon wedi bod ar waith ers nifer o flynyddoedd a gellid dadlau y dylid ei chadw ar y sail ei bod yn ymddangos fel pe bai'n gweithio'n effeithiol o ran sicrhau na chaiff plant eu hamlygu i gynnwys amhriodol drwy hysbysebion sinema a bod hawliau defnyddwyr yn cael eu diogelu'n gywir. Efallai y bydd rhai'n teimlo hefyd bod yr elfen statudol yn rhan hanfodol o'r system.

4.44 Fodd bynnag, fel y nodwyd yn gynharach yn y paragraffau blaenorol, efallai y bydd eraill o'r farn bod y rôl a gyflawnir gan y BBFC o ran rhoi dosbarthiad oedran i hysbysebion sinema eisoes yn cael ei chwmpasu'n ddigonol gan y system hunanreoleiddio a weithredir gan y diwydiant a'i bod felly yn faich diangen ar fusnesau.

Rhan A, Opsiwn 1: Dileu'r gofyniad sydd ar y BBFC i ddsbarthu hysbysebion sinema

4.45 Byddai'r opsiwn hwn, o bosibl, yn cael gwared ar y beichiau ariannol a gweinyddol sydd ar y diwydiant hysbysebion sinema yn sgil gorfod cyflwyno pob hysbyseb i'r BBFC roi dosbarthiad oedran iddi. Gellir dadlau y byddai hyn yn gwneud pethau'n haws i'r diwydiant hefyd, gan leihau'r cyfyngiadau amser ychwanegol sy'n deillio o'r ffaith bod angen i hysbysebion gael eu clirio gan y BBFC a'r CAA.

4.46 Yn ôl y BBFC, y gost gyfartalog gyfredol ar gyfer dosbarthu hysbyseb yw tua £111. Mae'r broses hon yn gosod baich gweinyddol ychwanegol ar y diwydiant gan fod angen rhoi copïau caled o'r hysbysebion y mae angen eu dosbarthu i'r BBFC. Pe caiff y gofyniad i ddsbarthu hysbysebion ei ddileu, yr unig effaith ar y BBFC fyddai'r effaith o ran yr adnoddau a ddefnyddir i gyflawni'r swyddogaeth ar hyn o bryd.

4.47 Fodd bynnag, a allai dileu'r gofyniad sydd ar y BBFC i roi dosbarthiad oedran i hysbysebion a ddangosir mewn sinemâu arwain at lai o ddiogelwch i ddefnyddwyr a phlant? Mae cyrff y diwydiant a'r CAA o'r farn bod y system clirio hysbysebion bresennol a nodir ym mharagraffau 4.6 i 4.23, a ategir gan god hysbysebion nas darlledir yr ASA (Cod CAP), yn ddigon cadarn i sicrhau nad oes unrhyw fylchau yn y broses reoleiddio, yn enwedig o ran diogelu plant, ac y caiff mesurau diogelwch addas eu cynnal ar gyfer defnyddwyr.

4.48 Ni fyddai'r opsiwn hwn yn gosod beichiau gorfodi ychwanegol ar awdurdodau lleol chwaith.

Opsiynau deddfwriaethol

4.49 Ar hyn o bryd, mae'r Llywodraeth wrthi'n cynnal ymgynghoriad ar wahân ar gynigion i ystyried dadreoleiddio Atodlen 1 i Ddeddf Trwyddedu 2003. Os

penderynir gwneud newidiadau deddfwriaethol i'r Ddeddf Trwyddedu o ganlyniad i'r ymgynghoriad hwn ar hysbysebion sinema, gallwn naill ai i) gwneud y newidiadau hynny fel rhan o'r newidiadau ehangach a gynigir yn Atodlen 1 i Ddeddf 2003 neu ii) gwneud y newidiadau hynny i ddeddfwriaeth sylfaenol ar wahân i'r newidiadau ehangach yn Atodlen 1.

4.50 Beth bynnag fydd canlyniad ymgynghoriad y Llywodraeth ar Ddeddf Trwyddedu 2003, ni fydd cynnig Rhan A Opsiwn 1 i ddileu'r gofyniad ar y BBFC i roi dosbarthiad oedran i hysbysebion sinema yn gofyn am wneud unrhyw newidiadau i Ddeddf Recordiadau Fideo 1984.

CWESTIYNAU'R YMGYNGHORIAD AR GYFER RHAN A

Wrth ateb unrhyw gwestiynau, rhowch eich rhesymau ac unrhyw dystiolaeth berthnasol i ategu eich barn, lle y bo'n bosibl.

Cwestiynau Cyffredinol

- C A.1 Beth yw eich barn ar y system bresennol o reoleiddio hysbysebion sinema?
- C A.2 A ydych o'r farn bod y system bresennol sy'n cynnwys y BBFC a'r CAA yn gosod baich deul diangen ar y diwydiant?
- C A.3 Beth yw eich asesiad o unrhyw gostau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r system ddeuol hon?
- C A.4 A ydych o'r farn bod y system bresennol sy'n cynnwys y BBFC a'r CAA yn fuddiol? Rhowch eich rhesymau.
- C A.5 A oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu y bydd dileu'r gofyniad sydd ar y BBFC i roi dosbarthiad oedran i hysbysebion a ddangosir mewn sinemâu yn arwain at lai o ddiogelwch i ddefnyddwyr a phlant? Rhowch fanylion.

Ar gyfer Rhan A Opsiwn 0 (Dim newid):

- C A .6 Beth yw eich asesiad cyffredinol o ran pa un a fyddai'r opsiwn hwn yn:
- cyflawni'r amcanion o sicrhau bod defnyddwyr a phlant yn cael eu diogelu
 - gweithio'n ymarferol?
- C A.7 Beth yw anfanteision allweddol yr opsiwn hwn yn eich barn chi? A allai'r opsiwn hwn gael ei addasu i oresgyn unrhyw broblemau?
- C A.8 Beth yw manteision allweddol yr opsiwn hwn yn eich barn chi?
- C A.9 Yn eich barn chi, sut byddai'r opsiwn hwn yn gweithio ar gyfer y rhanddeiliaid allweddol canlynol:
- defnyddwyr
 - y diwydiant
 - asiantaethau gorfodi?
- C A.10 A oes unrhyw beth a fyddai'n gwella'r opsiwn hwn ar gyfer unrhyw un o'r rhanddeiliaid?
- C A.11 A yw'r opsiwn hwn yn ffordd gymesur o reoleiddio hysbysebion sinema?

- C A.12 Yn eich barn chi, a oes unrhyw wybodaeth arall y dylai'r Llywodraeth ei hystyried wrth asesu'r opsiwn hwn?
- C A.13 A oes unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud? Rhwch y manylion yma.

Ar gyfer Rhan A Opsiwn 1 (dileu'r gofyniad sydd ar y BBFC i gyflawni rôl o ran rhoi dosbarthiad oedran i hysbysebion sinema):

- C A.14 Beth yw eich asesiad cyffredinol o ran pa un a fyddai'r opsiwn hwn yn:
- cyflawni'r amcanion o sicrhau bod defnyddwyr a phlant yn cael eu diogelu
 - gweithio'n ymarferol?
- C A.15 Beth yw anfanteision allweddol yr opsiwn hwn yn eich barn chi? A allai'r opsiwn hwn gael ei addasu i oresgyn unrhyw broblemau?
- C A.16 Beth yw manteision allweddol yr opsiwn hwn yn eich barn chi?
- C A.17 Yn eich barn chi, sut byddai'r opsiwn hwn yn gweithio ar gyfer y rhanddeiliaid allweddol canlynol:
- defnyddwyr
 - y diwydiant
 - asiantaethau gorfodi?
- C A.18 A oes unrhyw beth a fyddai'n gwella'r opsiwn hwn ar gyfer unrhyw un o'r rhanddeiliaid?
- C A.19 A yw'r opsiwn hwn yn ffordd gymesur o reoleiddio hysbysebion sinema?
- C A.20 Yn eich barn chi, a oes unrhyw wybodaeth arall y dylai'r Llywodraeth ei hystyried wrth asesu'r opsiwn hwn?
- C A.21 A oes unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud? Rhwch y manylion yma.

GWEFANNAU DEFNYDDIOL

Mae gwefan yr Awdurdod Safonau Hysbysebu yn nodi ei rôl o ran goruchwylio'r broses o reoleiddio hysbysebion:-

<http://www.asa.org.uk/>

Gellir gweld **Cod Hysbysebion Nas Darlledir, Hyrwyddo Gwerthiannau a Marchnata Uniongyrchol y DU (Cod CAP)** yn:-

<http://www.cap.org.uk/The-Codes/CAP-Code.aspx>

Mae gwefan Bwrdd Dosbarthu Ffilmiau Prydain (BBFC) yn nodi ei rôl bresennol, gan gynnwys y gwaith o ddsbarthu hysbysebion sinema:-

<http://www.bbfc.co.uk/>

Ceir manylion swyddogaethau sylfaenol y Gymdeithas Hysbysebion Sinema yn:-

<http://www.dcm.co.uk/about/cinema-advertising-association>

EITHRIADAU I'R BROSES DDOSBARTHU YN NEDDF RECORDIADAU FIDEO 1984

Trosolwg o'r sefyllfa reoleiddio bresennol

5.1 Mae Deddf Recordiadau Fideo 1984 yn rheoli'r cyflenwad o weithiau fideo ar ffurf copi caled yn y DU. Mae'n rhaid cyflwyno rhai gweithiau fideo y bwriedir eu cyflenwi i'r cyhoedd fel cynnyrch ffisegol i'r awdurdod dynodedig er mwyn iddynt gael tystysgrif dosbarthu yn ymwneud ag oedran. Erbyn hyn mae "gwaith fideo" yn cyfeirio fel arfer at gynnyrch DVD neu Blu-ray, ond mae'n cwmpasu unrhyw ddisg, neu unrhyw ddyfais storio arall sy'n gallu storio recordiad fideo. Mae'r BBFC wedi'i benodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i gyflawni'r gwaith o ddsbarthu'r cynhyrchion hyn (rhoddir disgrifiad manylach o'r BBFC ym mharagraffau 4.3 i 4.5 o'r ddogfen hon). Mae'r BBFC yn ystyried gwaith yn erbyn y Ddeddf Recordiadau Fideo a chyfreithiau eraill a'i ganllawiau ei hun ac yn rhoi dosbarthiad oedran 'U', 'PG', '12', '15', '18' neu 'R18'⁴ iddo.

5.2 Mae'n rhaid i ddeunydd pecynnu'r cynnyrch a'r disgiau (cyfryngau storio) gael eu labelu gyda'r dosbarthiad oedran priodol. Mae gwerthu neu rentu gwaith a ddsbarthwyd i'r rheini sy'n iau na'r oedran a nodir ar dystysgrif dosbarthu'r gwaith yn drosedd. Mae cyflenwi gwaith fideo sydd heb ei ddsbarthu hefyd yn drosedd onid yw'r gwaith dan sylw wedi'i eithrio rhag y broses ddsbarthu. Mae'r dosbarthiad oedran yn cyflawni swyddogaeth llawn mor bwysig drwy roi gwybodaeth hanfodol i rieni a phobl eraill sy'n prynu'r cynhyrchion i blant neu oedolion ifanc a'u rhybuddio ynghylch natur y cynnwys. Gorfodir y system gan Swyddogion Safonau Masnach sy'n cynnal gwiriadau ymhlith manwerthwyr i sicrhau bod cynhyrchion yn cael eu labelu a'u gwerthu yn unol â'r gyfraith.

5.3 Ar yr amod nad ydynt yn cynnwys mathau penodol o gynnwys a nodir yn adran 2(2) o'r Ddeddf Recordiadau Fideo (er enghraifft, golygfeydd o drais difrifol neu weithgarwch rhywiol pobl) caiff rhai deunyddiau fideo eu heithrio rhag y gofyniad i gael dosbarthiad oedran statudol. Mae'r rhain yn weithiau fideo sy'n ymwneud yn bennaf â cherddoriaeth, chwaraeon, crefydd neu addysg. Gellir gweld Adran 2 o'r Ddeddf Recordiadau Fideo sy'n ymdrin â'r eithriadau hyn yn Atodiad 1. Mae'r eithriadau hyn rhag y broses ddsbarthu wedi bod mewn grym ers i'r Ddeddf Recordiadau Fideo gael ei phasio gyntaf nôl yn 1984. Nid yw'n ofynnol i gynhyrchion a eithrir ddangos symbol dosbarthu oedran o unrhyw fath er bod rhai cynhyrchwyr yn rhoi'r symbol "E" ar ddeunydd pecynnu gweithiau a eithrir. Nid yw'r symbol "E" yn un o symbolau swyddogol y BBFC nac unrhyw gorff dosbarthu dynodedig arall yn y DU ac nid oes ganddo unrhyw rym cyfreithiol.

⁴ Ystyr 'U' yw Cyffredinol - mae'n addas i bob oed, mae 'PG' yn argymhell Arweiniad gan Rieni. Dim mewn siopau rhyw trwyddedig y gall gweithiau 'R18' gael eu cyflenwi, a dim ond i oedolion 18 oed a throsodd

5.4 Yn ôl ffigurau a ddarparwyd gan Gymdeithas Fideo Prydain (BVA)⁵ cafodd 7,999 o wahanol gynhyrchion DVD a Blu-ray eu ryddhau i fanwerthwyr prif ffrwd yn 2011. Credant fod 2,920 o'r cynhyrchion hyn wedi hawlio eithriad rhag dosbarthiad oedran fel a ganlyn:

- **Cerddoriaeth:** o'r cyfanswm o 1,300 o gynhyrchion a ryddhawyd, nid oedd dosbarthiad oedran ar 1,269 ohonynt
- **Chwaraeon:** o'r cyfanswm o 571 o gynhyrchion a ryddhawyd, nid oedd dosbarthiad oedran ar 483 ohonynt
- **Addysgol a chrefyddol (gan gynnwys dogfennol):** o'r cyfanswm o 1,293 o gynhyrchion a ryddhawyd, nid oedd dosbarthiad oedran ar 1,112 ohonynt

5.5 Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol nad yw ffigurau'r BVA yn debygol o gynnwys yr holl ddisgiau DVD a Blu-ray a ryddhawyd i'w gwerthu ar y farchnad yn y DU. Er enghraifft, credwn y gall fod nifer o gynhyrchion niche neu ddiwylliannol benodol sy'n ateb galw defnyddwyr y tu allan i'r system fanwerthu prif ffrwd ac na chânt eu nodi o reidrwydd mewn data a gyhoeddir ar y farchnad.

Pryderon a godwyd ynghylch y categorïau a eithrir

5.6 Mae'r rhan fwyaf o gemau fideo wedi'u heithrio rhag y broses ddosbarthu statudol hefyd ond mae'r eithriad hwn yn cael ei newid er mwyn sicrhau y bydd rhaid rhoi dosbarthiad oedran i bob gêm sy'n addas i unigolion 12 oed a throsodd cyn y gellir ei chyflenwi yn y DU. Gwneir y newid hwn mewn ymateb i argymhellion gan yr Athro Tanya Byron yn ei hadolygiad *Safer Children in a Digital World*, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2008, a aeth ati i ystyried y ffordd yr oedd plant yn defnyddio'r rhyngwyd ac yn chwarae gemau fideo a'r ffordd orau o'u diogelu rhag cynnwys amhriodol neu gynnwys a allai fod yn niweidiol.

<http://www.education.gov.uk/ukccis/about/a0076277/the-byron-reviews>

5.7 Yn dilyn hyn, cafodd y Ddeddf Recordiadau Fideo ei diwygio drwy gyfrwng Deddf yr Economi Ddigidol 2010 a chaiff y trefniadau newydd ar gemau fideo eu gweithredu'n llawn pan i) daw'r elfennau hynny o Ddeddf 2010 i rym, ii) caiff y Cyngor Safonau Fideo ei benodi fel y corff dosbarthu ar gyfer gemau fideo o dan y Ddeddf Recordiadau Fideo a iii) daw Rheoliadau Recordiadau Fideo (Labelu) 2012 i rym, y disgwylir iddo ddigwydd yn ystod yr haf.

5.8 Wrth i Ddeddf yr Economi Ddigidol fynd drwy'r Senedd, awgrymodd sawl Aelod Seneddol y dylid dileu'r eithriadau ar gyfer fideos cerddoriaeth a chwaraeon hefyd. Yn dilyn hyn, codwyd pryderon hefyd ynghylch cynnwys rhai gweithiau fideo dogfennol yr ystyrir eu bod yn cael eu cwmpasu gan yr eithriad sy'n ymwneud ag addysg yn y Ddeddf Recordiadau Fideo.

5.9 Ystyriwyd y mater hwn ymhellach yn adolygiad annibynnol Reg Bailey, *The Review of the Commercialisation and Sexualisation of Childhood*, a gyhoeddwyd

⁵ Ffynhonnell y data yw'r BVA/Official Charts Company/West 10. Ceir gwybodaeth am y BVA ar ei gwefan: <http://www.bva.org.uk/>

ym mis Mehefin 2011

(<http://www.education.gov.uk/childrenandyoungpeople/healthandwellbeing/b0074315/bailey-review>). Argymhellodd Mr Bailey y dylai'r Llywodraeth fynd ati i gynnal ymgynghoriad ar ba un a ddylai fideos cerddoriaeth barhau i gael eu trin yn wahanol i genres eraill o waith fideo, ac a ddylid dileu'r eithriad sy'n caniatáu i lawer ohonynt gael eu gwerthu heb ddsbarthiad oedran o'r Ddeddf Recordiadau Fideo.

5.10 Dim ond i recordiadau fideo ar ffurf copi caled (y cynnyrch ffisegol) y mae'r Ddeddf Recordiadau Fideo yn gymwys. Nid yw'n gymwys i gynnwys a ddangosir ar y teledu, sy'n cael ei reoleiddio o dan y Ddeddf Cyfathrebu (sy'n gweithredu'r Gyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol), na chynnwys sydd ar gael ar y rhyngwyd. Er hyn, yn ei argymhellion i'r Llywodraeth, awgrymodd Reg Bailey y byddai rhoi dosbarthiadau oedran ar DVDs a chyfryngau storio eraill yn helpu darlledwyr a chwmnïau'r rhyngwyd i sicrhau bod y cynnwys a gynigir ganddynt drwy'r dulliau hyn yn cael ei ddarparu mewn ffordd gyfrifol. Roedd yr argymhelliad yn Adolygiad Bailey yn adlewyrchu'r pryder a fynegwyd gan y sawl a gyfrannodd at yr adolygiad ynghylch fideos cerddoriaeth, ni waeth ym mha gyfrwng y cânt eu gweld. Ymhlith y prif bryderon a nodwyd roedd natur rywiol a threisgar y geiriau a ddefnyddiwyd mewn rhai caneuon, dawnsfeydd yr ystyriai'r ymatebwyr eu bod yn rhai rhywioledig iawn a'r modd yr oedd rolau rhyw yn cael eu stereoteipio mewn rhai fideos.

5.11 Mae arolwg dilynol a gynhaliwyd gan y BBFC drwy fforwm Mumsnet yn awgrymu nad oes fawr ddim dealltwriaeth o'r ffaith bod rhai gweithiau fideo yn cael eu heithrio rhag y gofyniad i gael dosbarthiad oedran. Gellir gweld canlyniadau'r arolwg ar wefan y BBFC yn <http://www.bbfc.co.uk/download/policy-and-research/Mumsnet%202011.pdf>.

5.12 Mae prif ganfyddiadau'r arolwg fel a ganlyn:

- mae 8 o bob 10 o'r rheini a ymatebodd o'r farn y dylai gweithiau fideo â chynnwys anaddas a eithrir ar hyn o bryd fod yn ddarostyngedig i system ddsbarthu oedran statudol
- gweithiau sy'n cynnwys trais yn erbyn pobl a chynnwys rhywiol sy'n syrthio'n fyr o ddangos rhyw gwirioneddol sy'n peri'r pryder mwyaf, gydag 86% ac 87% yn y drefn honno yn cefnogi gofyniad ar gyfer dosbarthiad oedran statudol

Dosbarthiadau ar gyfer cynnwys darlledu neu gynnwys ar-lein

5.13 Mae Cod Darlledu statudol Ofcom yn nodi'r rheolau y mae'n rhaid i ddarlledwyr eu dilyn o ran sut a phryd y gellir darlledu gwahanol fathau o ddeunydd. Mae nifer o'r cyfyngiadau a nodir yn y Cod - o ran darlledu deunydd rhywiol ac o ran ffilmiau, gwasanaethau ffilm tanysgrifiad premiwm a gwasanaethau talu wrth wyllo - yn seiliedig ar ddsbarthiad oedran perthnasol y BBFC (neu ddsbarthiad oedran cyfatebol). Yn gyffredinol, ni fydd y Cod hwn yn uniongyrchol berthnasol i'r rhan fwyaf o'r cynhyrchion ar ffurf copïau ffisegol a ystyrir yn yr ymgynghoriad hwn.

5.14 O dan y Cod, mae darlledwyr yn sicrhau na chaiff deunydd sy'n anaddas i blant ei ddangos rhwng 5.30 a'r trothwy gwylio, sef 21.00. Er enghraifft, ni ddylai rhaglenni a gaiff eu sgrinio cyn y trothwy gwylio esgusodi, annog na glamoreiddio'r defnydd o gyffuriau neu alcohol, rhaid iddynt gyfyngu ar y darluniau o drais (boed yn drais ar lafar neu'n drais corfforol) ac ni ddylent ddangos trais y mae'n hawdd i blant ei efelychu. Ni ellir defnyddio iaith dramgwyddus mewn rhaglenni a gaiff eu sgrinio cyn y trothwy gwylio oni ellir ei chyfiawnhau o ran y cyd-destun ac ni ddylai'r iaith fwyaf tramgwyddus gael ei darlledu o gwbl. O dan y Cod, ni ddylid dangos darluniau o gyfathrach rywiol cyn y trothwy gwylio oni bai bod diben addysgol difrifol iddynt a rhaid i unrhyw drafodaeth am ymddygiad rhywiol, neu unrhyw bortread ohono, gael eu cyfiawnhau'n olygyddol. Ni ddylai ffilmiau y rhoddydd dosbarthiad 18 iddynt gan y BBFC na ffilmiau cyfatebol gael eu darlledu cyn 21.00 ar unrhyw wasanaeth heblaw am wasanaethau talu wrth wyllo. Gall y gwasanaethau hyn ddarlledu'r cyfryw gynnwys rhwng 5.30 a 21.00 ar yr amod bod mynediad cyfyngedig gorfodol ar y cynnwys yn ystod y cyfnod hwnnw. Gellir gweld Cod Darlledu llawn Ofcom yma:

<http://stakeholders.ofcom.org.uk/broadcasting/broadcast-codes/broadcast-code/>

5.15 Mae rhai cynlluniau dosbarthu neu labelu gwirfoddol ar waith mewn perthynas â chynnwys ar-lein. Er enghraifft, gall cynhyrchwyr a darparwyr gwasanaethau digidol ymuno â 'BBFC Online' a defnyddio ei wasanaeth dosbarth gwirfoddol ar-lein. Mae hyn yn eu galluogi i arddangos y dosbarthiadau oedran a roddwyd gan y BBFC ("U", "PG", "12", "15" a "18") ar gyfer DVD neu ddisg Blu-ray os caiff yr un cynnwys ei gynnig ar-lein maes o law. Mae 'BBFC Online' yn cwmpasu pob math o ffyrdd o gyflenwi delweddau symudol anffisegol gan gynnwys 'Download-To-Own' (DTO), Gwasanaethau Ffrydio, Fideo Ar Alw a mathau eraill o 'Electronic Sell-Through' (EST). Mae 'BBFC Online' yn rhoi "cerdyn du electronig" i gwmnïau y gellir ei atodi i ddechrau'r ffeil gynnwys. Mae'r cerdyn hwn yn efelychu'r ffordd y caiff tystysgrifau'r BBFC eu dangos ar ddechrau ffilmiau sy'n cael eu sgrinio mewn sinemâu. Mae'r BBFC yn awgrymu bod hyn yn rhoi elfen o ymddiriedaeth a chynefindra i'r defnyddiwr. Mae'n costio £100 y flwyddyn i ddarparwyr cynnwys ymuno â 'BBFC Online' tra bod aelodaeth flynyddol ar gyfer deiliaid llwyfan yn dechrau o £1000.

5.16 Hefyd, gall cynhyrchwyr sy'n ymuno â 'BBFC Online' wneud cais am ddosbarthiadau oedran ar gyfer cynnwys y bwriadwyd iddo gael ei ddosbarthu ar-lein yn unig o dan wasanaeth 'Watch & Rate' y BBFC a lanswyd ym mis Rhagfyr 2010. Mae'r costau'n cynnwys ffi weinyddol o £20 ynghyd â £2.50 am bob munud o gynnwys. Nod y BBFC yw rhoi penderfyniad dosbarthu o fewn saith diwrnod a chaiff gweithiau a gyflwynir eu hadolygu yn erbyn yr un meini prawf â DVDs a disgiau Blu-ray. Hyd at fis Ionawr eleni, mae 214,000 o dystysgrifau 'BBFC Online' wedi'u rhoi ar gyfer gweithiau fideo unigol. Mae aelodau 'BBFC Online' yn cynnwys y rhan fwyaf o'r prif stiwdios ffilmiau a 10 o gasglwyr/llwyfannau gan gynnwys BT Vision a Netflix. Gellir cael rhagor o wybodaeth am 'BBFC Online', gan gynnwys rhestr o aelodau presennol, ar wefan y BBFC yn:

<http://www.bbfc.co.uk/bbfc-online>. Nid yw pob un o'r prif ddarparwyr gwasanaethau digidol yn aelodau o 'BBFC Online' ac efallai bod rhai ohonynt yn defnyddio eu

dosbarthiadau oedran eu hunain ar gyfer cynhyrchion a gynigir drwy eu gwasanaeth fel sy'n digwydd yn achos LoveFilm ac iTunes, er enghraifft.

5.17 O ran cynnwys fideos cerddoriaeth yn benodol, mae'r sefydliad masnach sy'n cynrychioli'r diwydiant cerddoriaeth wedi'i recordio yn y DU, sef y BPI, yn gweithredu cynllun gwirfoddol Cyngor i Rien (PAS). Mae'r cynllun hwn yn galluogi cynhyrchwyr a manwerthwyr i ddangos bod y cynnwys dan sylw yn anaddas i blant. Mae PAS wedi bod ar waith ar gyfer CDs a DVDs cerddoriaeth ers 1995. Yn 2011, aeth y BPI ati i ddiweddarau'r cynllun er mwyn annog manwerthwyr cerddoriaeth ddigidol a gwasanaethau ffrydio yn y DU i ddangos y logo Cyngor i Rien neu'r gair 'EXPLICIT' yn glir wrth ymyl unrhyw ffeiliau cerddoriaeth neu fideo â chynnwys sy'n anaddas i blant.

5.18 Mae Canllawiau PAS yn nodi y dylai'r logo "EXPLICIT" gael ei ddangos ar gyfer cynhyrchion sy'n cynnwys un neu fwy o'r canlynol:

- Iaith gref
- Delweddau o drais, cam-drin corfforol neu gam-drin meddyliol, neu gyfeiriadau atynt
- Delweddau o ymddygiad rhywiol, neu gyfeiriadau ato
- Iaith neu ymddygiad sy'n hiliol, yn homoffobig, neu'n dangos casineb at ferched neu iaith neu ymddygiad arall y gellir ystyried ei fod yn wahaniaethol
- Ymddygiad peryglus neu droseddol a allai glamoreiddio'r cyfryw ymddygiad neu annog eraill i'w efelychu

5.19 Cyfrifoldeb cynhyrchydd y cynnwys yw cynnal gwiriad gwirfoddol o'i gynnyrch yn erbyn meini prawf PAS a phenderfynu a yw label "EXPLICIT" yn briodol. Gellir defnyddio system PAS am ddim. Yn ôl ymchwil gan Ipsos Mori, mae 56% o rieni yn ymwybodol o'r logo PAS. Mae cynllun PAS yn cael ei ddefnyddio nid yn unig yn y DU ond mewn gwledydd eraill, yn fwyaf nodedig ym marchnad bwysig yr UD lle gallwn dybio y caiff cyfran fawr o'r fideos cerddoriaeth sydd o ddiddordeb i ddefnyddwyr yn y DU ei chyhoeddi.

5.20 Ymhlith y manwerthwyr ar-lein a'r darparwyr gwasanaethau digidol sy'n cydymffurfio neu'n cydymffurfio'n rhannol â'r cynllun hyd yma yn ôl y BPI mae: iTunes, Amazon, HMV, 7Digital, Napster, TuneTribe, Deezer, MTV, Vevo, Muzo, Orange, Tesco, Asda, Fairshare Music, Badlands a Trackitdown. Fodd bynnag, nid yw rhai llwyfannau mawr sy'n cynnig mynediad i fideos cerddoriaeth yn defnyddio'r cynllun o hyd.

5.21 Mae'r BPI wrthi'n gweithio gyda darparwyr gwasanaethau rhyngwryd i ddod o hyd i atebion hidlo posibl ar gyfer cynnwys a labelir o dan gynllun PAS. Mae'r BPI hefyd yn cynnal trafodaethau â chwmnïau sy'n darparu meddalwedd diogelwch ar gyfer y rhyngwryd ynghylch y posibilrwydd o alinio eu cynhyrchion diogelwch ar-lein â chynllun PAS fel y gall rhieni osod rheolaethau i atal cynnwys sydd â label PAS. Yn y cyfamser, efallai bod gwefannau unigol yn cynnig opsiwn hidlo mewn

perthynas â label PAS. Er enghraifft, mae iTunes yn rhoi'r gair "EXPLICIT" yn y data wrth ymyl y caneuon perthnasol a gall rhieni osod rheolaethau er mwyn atal y caneuon hynny rhag cael eu lawrlwytho.

5.22 Croesawn y camau i gyflwyno cynlluniau dosbarthu oedran a labelu ar gyfer cynnwys ar-lein. Ein nod, pan ddefnyddir dosbarthiadau oedran neu labelau ar gyfer cynhyrchion ar ffurf copi caled, yw y dylent yn sicr, lle y bo'n bosibl, gael eu defnyddio pan fo'r un cynnwys yn cael ei roi ar-lein. Y bwriad yw bod y rhain, ar y cyd â rheolaethau rhieni, yn galluogi rhieni i gyfyngu ar y cynnwys amhriodol y gall eu plant gael mynediad iddo. Pan nad yw cynhyrchion ar gael ar ffurf copi caled ond bwriedir iddynt gael eu rhyddhau'n uniongyrchol ar-lein, byddem yn hoffi gweld cynhyrchwyr a darparwyr gwasanaethau digidol yn gwneud defnydd llawn o'r cynlluniau dosbarthu neu labelu sydd ar gael iddynt fel bod unrhyw gynnwys sy'n anaddas i blant yn cael ei nodi. Rydym yn bwriadu gweithio mor gyflym â phosibl gyda phob rhanddeiliad er mwyn sicrhau bod hyn yn digwydd.

Y polisi

5.23 Ar ddechrau'r 1980au, pan aethpwyd ati i ddrafftio a deddfu'r Ddeddf Recordiadau Fideo, mae'n annhebygol y byddai deddfwyr wedi rhagweld y mathau o ddeunydd sydd bellach yn cael eu cynnwys mewn rhai gweithiau fideo yn y categorïau sydd wedi'u heithrio rhag gorfod cael dosbarthiad oedran. Ar yr adeg honno, byddai gwaith a oedd yn ymwneud yn bennaf â cherddoriaeth neu chwaraeon, er enghraifft, wedi cynnwys recordiad syml o ddigwyddiad byw fel arfer, megis perfformiad gan fand neu gerddorfa, gêm bêl-droed neu gystadleuaeth yn y Gemau Olympaidd. Y mater polisi yw a ddylid addasu'r system reoleiddio bresennol i ddelio â'r amrywiaeth ehangach o genres a welir bellach yn y categorïau a eithrir a sut y dylid gwneud hynny mewn ffordd ymarferol sy'n gymesur â'r materion sydd dan sylw.

5.24 Defnyddir fideos cerddoriaeth yn bennaf fel adnodd marchnata i hyrwyddo bandiau a pherfformwyr unigol, ynghyd â phopeth y mae hynny'n ei olygu o ran y ddelwedd a'r brand y mae'r diwydiant cerddoriaeth am eu cyfleu i ddilynwyr er mwyn annog gwerthiannau. Fel y nodwyd yn gynharach, mae gan rai rhieni ac aelodau o'r cyhoedd bryderon y gallai cynnwys rhai fideos cerddoriaeth fod yn amhriodol i wylwyr iau. Yn ôl arolwg y BBFC o ddefnyddwyr Mumsnet, ymhlith yr ystod o gynnwys amhriodol mae: ystumiau rhywiol; ymddygiad treisgar neu ddi-chwaeth; a chyfeiriadau at gamddefnyddio cyffuriau a allai awgrymu bod cymryd cyffuriau yn rhywbeth normal. Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod nad oes gan lawer o fideos cerddoriaeth unrhyw gynnwys o'r fath a'u bod yn gwbl ddiiniwed.

5.25 Mae nifer o fideos chwaraeon yn dangos lefel o drais y gallai rhai ei hystyried yn amhriodol i wylwyr iau - megis fideos reslo neu ymladd sy'n cynnwys trais cryf, gwaedlyd go iawn a lluniau a gaiff eu hailchwarae yn araf sy'n dangos y symudiadau cryfaf ac ymddygiad treisgar a allai fod yn beryglus pe bai'n cael ei gopïo; neu sylwebaeth chwaraeon sy'n mawrygu trais.

5.26 O ran pwnc, delweddau ac iaith, gall rhai rhieni ystyried bod cynnwys rhai rhaglenni dogfen - yr ystyrir eu bod yn rhan o'r genre addysgol a eithrir - yn amhriodol i blant. Yn hyn o beth, mae'r BBFC wedi nodi gweithiau sy'n dangos

materion megis: delweddau o leoliadau troseddau go iawn, megis cyrff wedi'u hanffurfio; trais rhywiol; golygfeydd wedi'u hail-greu o lofruddiaethau ciaidd; lluniau dilys o ddiennyddiau go iawn; a chamddefnyddio cyffuriau. O ran cynhyrchion ar gyfer y farchnad addysg yn benodol, mae nifer o Aelodau Seneddol wedi codi pryderon yn ddiweddar ynghylch rhai DVDs heb ddsbarthiad sydd wedi'u hanelu at addysgu plant am gydbberthnasau rhywiol pobl.

5.27 Mae'n bwysig cadw pethau'n gymesur. Mae cynnwys gweithiau cerddoriaeth, chwaraeon ac addysgol/dogfennol yn amrywio'n eang. Mae'n rhaid cofio eu bod yn cynrychioli cyfran fach o gyfanswm y gweithiau fideo a gyhoeddir bob blwyddyn ac, yn eu tro, bod rheini sy'n peri pryder yn debygol o gyfrif am ganran fach iawn o'r categorïau hynny. Nid yw llawer o'r gweithiau hynny yr ystyrir eu bod yn peri problemau - efallai'r rhan fwyaf ohonynt - wedi'u hanelu at blant. Fodd bynnag, er ei bod yn bosibl nad yw'r gweithiau hyn wedi'u hanelu'n benodol at blant, mae'n debygol y bydd rhai ohonynt, yn enwedig y rheini sy'n ymwneud â cherddoriaeth a chwaraeon, yn apelio atynt.

5.28 Mae Adran 2 (2) o'r Ddeddf Recordiau Fideo eisoes yn ei gwneud yn ofynnol i roi dosbarthiad oedran i fideos cerddoriaeth, chwaraeon, crefyddol ac addysgol os ydynt yn cynnwys deunydd i oedolion sy'n dangos trais difrifol, rhyw ac ymddygiad troseddol. Fodd bynnag, mae pryder bod cynnwys nad yw'n bodloni'r trothwy presennol ar gyfer cael dosbarthiad oedran yn dal i fod yn amhriodol i blant ac oedolion iau ei wyllo ac y gellir ei werthu'n eang ar hyn o bryd heb unrhyw arweiniad ar ei ddsbarthiad oedran na chyfyngiadau. Hefyd, yn absenoldeb rheolaethau gorfodi statudol, nid oes rhaid i'r mathau hyn o weithiau ddangos eu bod yn cynnwys deunydd a all fod yn anaddas i blant. O ystyried y mesurau diogelwch statudol presennol, a'r ffaith na chaiff llawer o'r deunydd hwn ei farchnata'n benodol ar gyfer plant, rydym yn ceisio barn ar i ba raddau y mae problem yn bodoli y mae angen mynd i'r afael â hi ac, os oes problem o'r fath, pa gamau gweithredu fyddai'n gyfystyr ag ymateb cymesur ac effeithiol.

Yr Opsiynau - crynodeb

5.29 Yma nodwn y prif opsiynau rheoleiddio yn ein barn ni, ond gall fod posibiliadau eraill. Croesawn farn ar yr opsiynau hyn ac unrhyw atebion eraill y gall ymatebwyr fod am eu cynnig:

- **Rhan B opsiwn 0: Cadw'r eithriadau presennol fel y maent**, naill ai ar y sail nad yw'r trefniadau presennol yn peri pryder i'r graddau y byddai hynny'n cyfiawnhau newid deddfwriaethol, neu ar y sail y byddai dileu eithriadau yn gosod beichiau diangen neu anghymesur ar y diwydiant, a hynny heb fawr o fudd.
- **Rhan B opsiwn 1: Dileu'r eithriadau rhag y gofyniad i ddsbarthu oedran ar gyfer gweithiau fideo ym meysydd cerddoriaeth, chwaraeon, crefydd ac addysg.** Mae angen deddfwriaeth sylfaenol er mwyn cyflawni hyn. Byddai dileu'r eithriad yn golygu y byddai'n rhaid i

gynhyrchwyr gyflwyno'u holl ddeunydd ffilm i'r BBFC ei ddsbarthu cyn iddo gael ei werthu yn y DU, ni waeth beth fo'i genre.

- **Rhan B opsiwn 2: Gostwng y trothwyon cynnwys presennol ar gyfer eithrio fel bod mwy o gynhyrchion yn cael eu cynnwys o fewn cwmpas y gofyniad i ddsbarthu oedran** (fel yr ydym wedi'i wneud yn ddiweddar ar gyfer gemau fideo). Gellir cyflawni hyn drwy is-ddeddfwriaeth.
- **Rhan B opsiwn 3: Gofyn i rannau eraill o'r diwydiant fideos gyflwyno system hunanreoleiddio sy'n rhoi cyngor i rieni** ar gyfer y genres a eithrir ar hyn o bryd - tebyg i gynllun labelu PAS y BPI ar gyfer cynhyrchion â thema cerddoriaeth.

5.30 Fel y nodwyd yn gynharach, mae'r Llywodraeth wrthi'n rhoi newidiadau ar waith i'r system reoleiddio ar gyfer gemau fideo yn sgil yr argymhellion a wnaed yn Adolygiad Byron ac ymgynghoriad cyhoeddus dilynol. Bydd hyn yn golygu y caiff y broses o roi'r dosbarthiadau oedran "12", "16" neu "18" i gemau o dan system PEGI (Gwybodaeth Gemau Pan-Ewropeaidd) gefnogaeth statudol ond bydd gemau sy'n addas i grwpiau oedran iau yn parhau i gael eu heithrio rhag dosbarthiadau oedran. Nid ydym yn ceisio barn ar yr eithriad sydd mewn grym ar gyfer gemau fideo sy'n addas i'r rheini o dan 12 oed. Fodd bynnag, mae croeso i ymatebwyr gynnig barn a thystiolaeth ar unrhyw opsiynau posibl os dymunant wneud hynny.

5.31 O dan y system reoleiddio newydd ar gyfer gemau fideo, mae'n bosibl bod gemau a allai ddisgwyl cael dosbarthiad 12 gan PEGI ond y gallai fod ganddynt yr opsiwn o hawlio eithriad os ydynt yn ymwneud yn bennaf â cherddoriaeth, chwaraeon, crefydd neu addysg. Byddai cyhoeddwyr yn colli'r cyfle i hawlio'r cyfryw eithriad o dan Opsiwn 1 a drafodir yn yr ymgynghoriad hwn ar eithriadau i'r Ddeddf Recordiadau Fideo. Fodd bynnag, yn seiliedig ar y data sydd ar gael ar hyn o bryd, ni fu'n bosibl amcangyfrif sawl gêm fideo, os o gwbl, y gallai hyn fod yn berthnasol iddynt. Mae'n werth nodi hefyd fod cyhoeddwyr gemau fideo mewn bocsys yn cyfeirio'u holl gynhyrchion yn wirfoddol i gael dosbarthiad PEGI (fel arfer ni fydd manwerthwyr yn gwerthu gemau fideo mewn bocsys os nad ydynt wedi cael dosbarthiad PEGI) felly mae'n bosibl na fyddant yn hawlio'r eithriad hyd yn oed os yw ar gael. Byddem yn croesawu'n arbennig dystiolaeth ar effaith bosibl Opsiwn 1 ar gyhoeddwyr gemau fideo.

Yr Opsiynau – yn fanylach

Rhan B opsiwn 0 Dim newid i'r system bresennol

5.32 O dan yr opsiwn hwn, byddai'r eithriadau presennol rhag dosbarthu ar gyfer gweithiau fideo sy'n ymwneud â cherddoriaeth, chwaraeon, crefydd ac addysg yn parhau mewn grym ac, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, dim ond y rhai sy'n cynnwys y math o ddeunydd a ddisgrifir yn adran 2(2) o'r Ddeddf Recordiadau Fideo (trais difrifol, gweithgarwch rhywiol pobl neu ymddygiad troseddol) fyddai'n gorfod cael dosbarthiad oedran gan y BBFC.

5.33 Mae siartiau'r BVA⁶ o'r DVDs a werthodd orau yn 2011 yn cynnig rhywfaint o gyd-destun ynghylch y modd y cymhwysir y system ar hyn o bryd at y farchnad brif ffrwd ar gyfer cynhyrchion sy'n ymwneud â cherddoriaeth a chwaraeon:

Y Deg DVD Fwyaf Poblogaidd yn 2011 - Cerddoriaeth

1	Take That Progress Live	Wedi hawlio eithriad
2	Recordiad o Gast Phantom Of The Opera yn Neuadd Albert	Wedi hawlio eithriad
3	Recordiad o Gast Gwreiddiol Les Misérables - Cyngerdd Dathlu'r Sioe yn 25 oed	Wedi hawlio eithriad
4	Justin Bieber - Never Say Never	Rhodddwyd y dosbarthiad "U" iddi gan y BBFC i'w rhyddhau mewn theatrau
5	Adele Live At The Royal Albert Hall	Wedi hawlio eithriad
6	Michael Jackson This Is It	Rhodddwyd y dosbarthiad "PG" iddi gan y BBFC i'w rhyddhau mewn theatrau
7	George Harrison Living In The Material World	Rhodddwyd y dosbarthiad "12" iddi gan y BBFC i'w rhyddhau mewn theatrau
8	André Rieu & Johann Strauss Or The Last Rose - Live In Dublin	Wedi hawlio eithriad
9	André Rieu The Christmas I Love	Wedi hawlio eithriad
10	AC/DC Live At River Plate	Wedi hawlio

⁶ Ffynhonnell: BVA/Official Charts Company/West10

		eithriad
--	--	----------

Y Deg DVD Fwyaf Poblogaidd yn 2011 - Chwaraeon/Ffitrwydd

1	Davina - Body Buff	Wedi hawlio eithriad
2	10 Minute Solution - Blast Off Belly Fat	Wedi hawlio eithriad
3	Jillian Michaels - 30 Day Shred	Wedi hawlio eithriad
4	Pump It Up - Body Burn	Wedi hawlio eithriad
5	Clare Nasir's Boot Camp	Wedi hawlio eithriad
6	Ashes Series 2010/2011 - Complete	Wedi hawlio eithriad
7	10 Minute Solution - Belly Butt & Thigh	Wedi hawlio eithriad
8	Nadia Sawalha's Fat To Fab Workout	Wedi hawlio eithriad
9	Step Up - The Official Dance Workout	Wedi hawlio eithriad
10	Dancing On Ice - The Live Tour 2011	Wedi hawlio eithriad

5.34 Nid yw'r BVA yn llunio siart ar wahân ar gyfer DVDs addysgol/dogfennol neu grefyddol.

5.35 O blith y categorïau a eithrir, DVDs/disgiau Blu-ray sy'n ymwneud â cherddoriaeth yw'r farchnad fwyaf. Mae ymchwil gan y BPI yn awgrymu bod y mwyafrif helaeth o'r gwerthiannau hyn yn ymwneud â recordiadau o berfformiadau byw, ac ymddengys y caiff hyn ei ategu gan siart y BVA o'r DVDs a werthodd orau yn 2011. Yn y cyfamser, mae unrhyw bryderon a godwyd wedi tueddu i ymwneud â chasgliadau fideo (casgliad o fideos hyrwyddol) sy'n debygol o gyfrif am ran fach o'r farchnad yn unig.

5.36 O ran y genre chwaraeon, o ystyried y nifer a'r amrywiaeth o deitlau sydd ar gael, mae'n bosibl y gellir dangos bod y math o gynhyrchion y nodwyd y gallent fod yn amhriodol i blant yn cynrychioli cyfran fach o'r farchnad gyffredinol. Yn ôl y BVA, mae cyfran fawr o'r teitlau a ryddhawyd yn ei arolygon o'r farchnad (275 o 571) naill ai'n ymwneud â chadw'n heini a gofalu am y corff neu bêl-droed. Os yw defnyddwyr wedi mynegi pryderon, tybiwn fod y pryderon hynny yn ymwneud yn bennaf â chynhyrchion sy'n ymwneud â chwaraeon ymladd fel reslo, bocsio neu greffttau ymladd. Yn ôl y BVA, dim ond dau o'r 72 o deitlau reslo a nodwyd yn ei arolwg yn 2011 oedd heb ddsbarthiad oedran. O'r 33 o gynhyrchion a oedd yn ymwneud â chrefftau ymladd, hawliodd 27 ohonynt eithriad rhag dosbarthiad oedran. Hawliodd pob un o'r naw teitl bocsio a ryddhawyd eithriad hefyd.

5.37 Mae DVDs a disgiau Blu-ray sy'n ymwneud â chrefydd ac addysg yn amrywiol iawn o ran y math o gynnyrch a'r pwnc. Roedd nifer fwyaf y teitlau a ryddhawyd yn ymwneud â rhaglenni dogfen cyffredinol, milwrol a hanesyddol, natur, bywyd gwyllt a theithio. Fodd bynnag, ceir nifer lai o deitlau ar bynciau mor amrywiol â'r celfyddydau a hynafolion, garddio, straeon Beiblaidd, y goruwchnaturiol a'r Teulu Brenhinol. Er ei bod yn sicr yn bosibl dod o hyd i weithiau fideo yn y genre crefyddol ac addysgol â chynnwys a fyddai'n amhriodol i blant ifanc ei wyllo, ychydig iawn o dystiolaeth, os o gwbl, a gyflwynwyd hyd yma i gefnogi'r farn bod gan blant yn gyffredinol ddigon o ddiddordeb mewn cael a gwylio'r cyfryw weithiau neu y byddent yn cael eu niweidio drwy eu gwylio. Hefyd, mae'n wir wrth gwrs bod rhaglenni dogfen â chynnwys ysgytwol, delweddau amhleserus a mathau eraill o gynnwys heriol yn aml yn cael eu darlledu ar gyfryngau prif ffrwd ac, yn achos rhaglenni newyddion, gallai hyn ddigwydd cyn y trothwy gwylio am 9.00pm.

5.38 Dylai ymatebwyr ystyried a allai'r system reoleiddio bresennol gael ei hystyried yn ymateb cymesur o ystyried y nifer fach o gynhyrchion sydd wedi codi pryderon yng nghyd-destun y farchnad gyffredinol ar gyfer cynhyrchion yn y categorïau a eithrir.

Rhan B opsiwn 1: Dileu eithriadau ar gyfer gweithiau fideo ym meysydd cerddoriaeth, chwaraeon, crefydd ac addysg (drwy gyfrwng deddfwriaeth sylfaenol)

5.39 O dan yr opsiwn hwn, byddai pob DVD, disg Blu-ray ac ati, ni waeth beth fo'i chynnwys, yn cael ei chyfeirio at y BBFC i'w dosbarthu. Byddai'n ofynnol i bob cynnyrch ddangos y dosbarthiad oedran a bennwyd gan y BBFC ar ei ddeunydd pecynnu a byddai'r cyfyngiadau oedran yn cael eu cymhwyso wrth y man gwerthu a chyflenwi.

5.40 Byddai'r opsiwn hwn yn dileu'r holl amwysedd ynghylch pa un a gwaith yn cael budd o gael ei eithrio, neu pa un a yw'r gwaith yn cynnwys deunydd a fyddai'n achosi iddo gollu'r eithriad rhag dosbarthiad oedran. Gellir dadlau y byddai hynny'n gwneud pethau'n haws i'r diwydiant a'r asiantaethau gorfodi. Byddai hefyd yn rhoi eglurder llwyr i rieni, yn enwedig gan fod awgrym bod rhieni eisoes yn disgwyl bod y deunydd hwn yn cael ei ddsbarthu. Mae'r dystiolaeth hon yn deillio o ganlyniadau ymchwil a gynhaliwyd gan Goldstone Perl ar ran y BBFC ym mis Tachwedd 2010. Gellir gweld canlyniadau'r gwaith ymchwil hwnnw yma: (<http://www.bbfc.co.uk/classification/downloads/>).

5.41 Byddai dileu'r eithriad yn golygu cost ychwanegol i'r diwydiant gan y byddai angen i bob gwaith gael ei gyflwyno i'r BBFC ei ddsbarthu. Mae'r BBFC yn codi tâl o £6.00 am bob munud o gynnwys y fideo ynghyd â ffi drafod o £75 am bob fideo a gyflwynir. Yn ôl y BBFC, 66.4 munud oedd amser rhedeg cyfartalog y gweithiau fideo ar ffurf copi caled a gyflwynwyd i'w dosbarthu yn 2011. Byddai ffioedd o £473.40 yn cael eu codi am ddsbarthu'r cyfryw waith. Byddai'r broses honno yn gosod baich gweinyddol ar y diwydiant hefyd a byddai cyfyngiadau amser ychwanegol i'w rheoli. Yn ôl y diwydiant, gallai'r baich ychwanegol o geisio dosbarthiad oedran gan y BBFC arwain at sefyllfa lle y gallai rhai busnesau benderfynu peidio â chynhyrchu copi ffisegol o waith fideo penodol ar gyfer y

farchnad yn y DU a dewis cynnig y gwaith fideo hwnnw ar-lein yn unig neu ddim o gwbl.

5.42 Byddai'r opsiwn hwn hefyd yn effeithio ar fanwerthwyr a fyddai'n gorfod cymhwyso'r dosbarthiadau oedran wrth y man gwerthu (fel y maent yn ei wneud eisoes ar gyfer cynhyrchion eraill a ddsbarthwyd), Safonau Masnach a fyddai'n gorfod delio â mwy o gynhyrchion wrth ymgymryd â gwaith gorfodi a'r BBFC, wrth gwrs, a fyddai'n gorfod prosesu nifer sylweddol o gyflwyniadau ychwanegol bob blwyddyn.

5.43 O dan y system newydd y mae'r Llywodraeth yn ei gweithredu ar gyfer gemau fideo, caiff gemau sy'n addas ar gyfer plant iau eu heithrio rhag dosbarthiadau oedran statudol. Fodd bynnag, gallai gemau sy'n addas ar gyfer y rheini dros 12 oed yn unig gael eu heithrio hefyd os ydynt yn ymwneud yn bennaf â cherddoriaeth, chwaraeon, crefydd neu addysg, ar yr amod nad ydynt yn cynnwys golygfeydd o drais difrifol, rhyw neu weithgarwch troseddol fel y'u nodir yn adran 2 (2) o'r Ddeddf Recordiadau Fideo. O dan Opsiwn 1 o'r ymgynghoriad hwn ar eithriadau i'r Ddeddf Recordiadau Fideo, gallai'r cyfryw gemau fideo golli'r cyfle i hawlio'r eithriad hwn, er nad yw'n glir faint o gynhyrchion a fyddai'n cael eu heffeithio, os o gwbl.

Rhan B opsiwn 2: Gostwng y trothwyon statudol presennol ar gyfer eithrio fel bod mwy o gynhyrchion yn ddarostyngedig i'r broses ddsbarthu (drwy gyfrwng is-ddeddfwriaeth)

5.44 O dan y Ddeddf Recordiadau Fideo, ni all gweithiau fideo sy'n ymwneud â cherddoriaeth, chwaraeon ac addysg gael eu heithrio rhag y broses o ddsbarthu oedran ar hyn o bryd os oes ganddynt gynnwys o'r math a ddisgrifir yn adran 2(2) o'r Ddeddf Recordiadau Fideo (a nodir yn gynharach). Credir mai dim ond y deunydd mwyaf eithafol a gaiff ei gwmpasu gan y meini prawf eithrio presennol yn y cyd-destun hwn, a bod hyn yn gadael y farchnad yn agored i amrywiaeth eang o gynnwys sydd, er nad ystyrir ei fod ar ben uchaf y raddfa cynnwys i oedolion, yn dal i fod yn anaddas i blant ei wyllo, yn enwedig plant iau ac oedolion sy'n agored i niwed.

5.45 Mae'r Llywodraeth wrthi'n gostwng y trothwy ar gyfer gemau fideo (a eithriwyd i raddau helaeth) a gyflwynir i gael dosbarthiad oedran statudol drwy bennu diffiniadau newydd o gynnwys sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r cynnyrch gael ei ddsbarthu. Un opsiwn posibl o ran rheoleiddio yw defnyddio'r model hwn ar gyfer y deunydd ffilm a eithrir ar hyn o bryd. O dan y newidiadau a ddeddfwyd yn Neddf yr Economi Ddigidol, bydd gemau fideo yn colli'r eithriad rhag y broses ddsbarthu yn y dyfodol os byddant yn cynnwys unrhyw un o'r canlynol:

- darluniau o drais tuag at gymeriadau sy'n bobl neu'n anifeiliaid, pa un a yw'r trais yn edrych yn realistig ai peidio a pha un a yw'r trais yn arwain at niwed amlwg ai peidio,
- darluniau o drais tuag at gymeriadau eraill lle mae'r trais yn edrych yn realistig,

- darluniau o weithgarwch troseddol sy'n debygol o ysgogi neu annog troseddu, i unrhyw raddau,
- darluniau o weithgareddau sy'n ymwneud â chyffuriau anghyfreithlon neu gamddefnyddio cyffuriau,
- geiriau neu ddelweddau sy'n debygol o ysgogi neu annog y defnydd o alcohol neu dybaco, i unrhyw raddau,
- geiriau neu ddelweddau y bwriedir iddynt gyfleu neges rywiol,
- rhegi, neu
- eiriau neu ddelweddau y bwriedir iddynt achosi tramgwydd neu sy'n debygol o wneud hynny, i unrhyw raddau, boed ar sail hil, rhyw, anabled, crefydd neu gred, cyfeiriadedd rhywiol neu fel arall.

5.46 Gallem ystyried cymhwysu'r un diffiniadau hyn at ddeunydd ffilm yn y genres cerddoriaeth, chwaraeon, crefydd ac addysg, neu lunio diffiniadau disgrifiadol amgen a fyddai'n mynd i'r afael â'r pryderon sylfaenol allweddol ac a gaiff eu derbyn yn gyffredinol.

5.47 Yn amlwg, o dan yr opsiwn hwn, byddai'n rhaid i gynhyrchwyr gyflwyno mwy o gynhyrchion i'w dosbarthu gan y BBFC na'r niferoedd a gyflwynir ar hyn o bryd - a thalu'r costau a fyddai'n gysylltiedig â gwneud hyn - ond gellid ystyried bod hyn yn llai beichus nag Opsiwn 1.

5.48 Byddai'r opsiwn hwn hefyd yn effeithio ar fanwerthwyr, Safonau Masnach a'r BBFC, er y byddai'n rhaid iddynt ddelio â llai o gynhyrchion ychwanegol o gymharu ag Opsiwn 1.

Rhan B Opsiwn 3: Cynllun hunanreoleiddio gwirfoddol sy'n rhoi cyngor i rieni

5.49 Mae'r diwydiant cerddoriaeth yn derbyn y gall deunydd penodol mewn rhai fideos cerddoriaeth beri tramgwydd i rai pobl. Mae'r diwydiant eisoes yn cydnabod bod y geiriau a ddefnyddir mewn caneuon yn adlewyrchu iaith ac agweddau grwpiau penodol a all beri sioc a thramgwydd i bobl eraill, ac mae'n deall ei bod yn bosibl na fydd rhieni am i'w plant gael eu hamlygu i'r cyfryw deunydd. Am y rhesymau hyn, fel y disgrifir ym mharagraffau 5.16 i 5.20, aeth ati i greu system labelu wirfoddol PAS i rybuddio defnyddwyr am gynnwys a allai fod yn dramgwyddus. Mae'r system wedi bod ar waith ers 1995 a chaiff ei chydabod yn eang bellach fel canllaw defnyddiol i rieni.

5.50 Fel arfer, mae'r label "explicit" ar y deunydd pecynnu yn amlygu'r ffaith bod y gwaith clywedol yn cynnwys iaith gref. Gallai'r cysyniad hwn gael ei gymhwyso at weithiau eraill sy'n cael eu heithrio rhag dosbarthiad oedran ar hyn o bryd. Byddai'r opsiwn hwn yn golygu y byddai'r diwydiant yn wynebu rhai costau, ond byddai'r costau hyn yn gyfyngedig. Gallai'r cyfryw ddull hunanreoleiddio ddefnyddio'r diffiniadau a nodir yn Opsiwn 2, er y gallai meini prawf presennol y BPI (paragraff 5.17) gael eu defnyddio hefyd.

5.51 Nid oes unrhyw gyfryw gynllun ar waith y gellir adeiladu arno o ran fideos chwaraeon, crefyddol neu ddogfennol, felly byddai'r diwydiant yn dechrau o'r dechrau mewn perthynas â'r rhain. Fodd bynnag, mae'n sicr y gallai ddysgu o'r model a ddarperir gan gynllun PAS y diwydiant cerddoriaeth.

5.52 Byddai'r opsiwn hwn yn lleihau'r beichiau ar y diwydiant ond, wrth gwrs, byddai'n golygu system heb unrhyw gefnogaeth na gorfodaeth statudol. Felly, ni fyddai unrhyw rwystrau cyfreithiol i werthu'r cynhyrchion yn uniongyrchol i blant ond gall fod yn ddigon i ddibynnu ar broses hunanreoleiddio busnesau a'u hymrwymiad i gydymffurfio â'r cynllun.

5.53 Byddai'r opsiwn hwn yn effeithio ar gynhyrchwyr cynnwys, sefydliadau'r diwydiant a manwerthwyr yn bennaf.

Casgliad

5.54 Ar hyn o bryd, dewis opsiwn y Llywodraeth yw gostwng y trothwy ar gyfer eithrio (Opsiwn 2). O dan yr opsiwn hwn, gellid cynnwys y cynhyrchion penodol sydd wedi codi pryderon o fewn y system dosbarthu oedran statudol ac osgoi gosod beichiau rheoleiddio newydd ar gyfran fawr o'r farchnad, y mae'r dystiolaeth a gasglwyd hyd yma yn awgrymu y byddai'n peryglu deunydd sy'n addas ar gyfer pob cynulleidfa. Rydym wedi cyflwyno'r diffiniadau o drothwyon a ddefnyddir i ddosbarthu gemau fideo fel model enghreifftiol ond, yn sicr, byddai gennym ddiddordeb mewn clywed awgrymiadau eraill. Rydym yn cadw meddwl agored am y mater hwn a **byddem hefyd, wrth gwrs, yn croesawu barn a thystiolaeth ar bob un o'r opsiynau eraill cyn y caiff penderfyniad terfynol ei wneud.**

5.55 Rydym yn ymwybodol y gall pob un o'r opsiynau sy'n cael eu hystyried - ar wahân i'r opsiwn "dim newid" - gael effaith sylweddol ar fusnesau. Er bod gennym rywfaint o ddata defnyddiol iawn ar y marchnadoedd prif ffrwd ar gyfer gweithiau a eithrir, nid yw'r data hwnnw'n gwbl gynhwysfawr ac mae'n golygu ei bod yn anodd asesu costau a buddiannau yn gywir. Byddem yn arbennig o awyddus i gael data ychwanegol gan y diwydiant drwy'r broses ymgynghori hon er mwyn ein helpu i werthuso effeithiau pob un o'r opsiynau hyn ar fusnesau yn well.

CWESTIYNAU'R YMGYNGHORIAD AR GYFER RHAN B

Wrth ateb unrhyw gwestiynau, rhowch eich rhesymau ac unrhyw dystiolaeth berthnasol i ategu eich barn, lle y bo'n bosibl.

Cwestiynau cyffredinol

- C B.1 Yn eich barn chi, i ba raddau y mae deunydd a allai fod yn anaddas i blant ar gael ar gopiâu caled o fideos sydd heb eu dosbarthu? Rhowch dystiolaeth i gefnogi eich barn.
- C B.2 A ydych o'r farn bod rhai cynhyrchwyr yn methu â chyflwyno gweithiau i'r BBFC eu dosbarthu er nad yw eu gwaith yn bodloni'r meini prawf presennol ar gyfer eithrio? Os felly, rhowch dystiolaeth i gefnogi eich barn.
- C B.3 Pa fesurau sydd gan gynhyrchwyr ar waith i asesu cynnwys gweithiau fideo a allai gael eu heithrio? Sut mae cynhyrchwyr yn penderfynu a yw gweithiau fideo wedi'u heithrio ai peidio?
- C B.4 A oes nifer sylweddol o gynhyrchion cerddoriaeth, chwaraeon ac addysgol ar y farchnad yn y DU nad ydynt yn cael eu nodi mewn data a gyhoeddir ar y farchnad? Os felly, rhowch dystiolaeth.
- C B.5 A oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod y cynhyrchwyr sy'n hawlio eithriadau ar hyn o bryd yn cynnwys microfusnesau⁷?
- C B.6 O ran fideos a gynigir ar-lein, pa mor aml y mae cynhyrchion unigol yn rhoi cyngor ar eu haddasrwydd i wahanol oedrannau neu natur eu cynnwys? Pa mor ddefnyddiol yw'r dosbarthiadau a'r labelau a ddefnyddir ar-lein?
- C B.7 Beth arall y gellir ei wneud i helpu rhieni i benderfynu a yw'n addas i'w plant wylio cynnwys fideo penodol a gynigir ar-lein ai peidio?

Cwestiynau ar yr Opsiynau

Rhan B Opsiwn 0 (dim newid):

- C B.8 Beth yw eich asesiad cyffredinol o ba un a fyddai'r opsiwn hwn yn gweithio, a pham?
- C B.9 A oes unrhyw anfanteision allweddol i'r opsiwn hwn yn eich barn chi? A allai'r opsiwn hwn gael ei addasu i oresgyn unrhyw broblemau?

⁷ Ar 1 Ebrill 2011, cyflwynodd Llywodraeth y DU gyfnod rhewi o dair blynedd ar reoliadau domestig newydd ar gyfer busnesau â llai na 10 cyflogai, sef microfusnesau. Gall hepgoriadau rhag y moratoriwm hwn gael eu hystyried fesul achos a rhaid iddynt gael eu cymeradwyo gan Bwyllgor Lleihau Rheoliadau a Phwyllgor Materion Economaidd y Cabinet

- C B.10 Beth yw manteision allweddol yr opsiwn hwn yn eich barn chi?
- C B.11 Yn eich barn chi, sut byddai'r opsiwn hwn yn gweithio ar gyfer y rhanddeiliaid allweddol canlynol:
- defnyddwyr
 - y diwydiant
 - asiantaethau gorfodi?
- C B.12 A oes unrhyw beth a fyddai'n gwella'r opsiwn hwn ar gyfer unrhyw un o'r rhanddeiliaid?
- C B.13 A yw'r opsiwn hwn yn ffordd gymesur o sicrhau trefn reoleiddio?
- C B.14 Yn eich barn chi, a oes unrhyw ddata, ffeithiau, ffigurau neu wybodaeth y dylai'r Llywodraeth eu hystyried wrth fynd ati i asesu'r opsiwn hwn?
- C B.15 A oes unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud? Rhowch y manylion yma.

Opsiwn 1 (dileu eithriadau ar gyfer gweithiau fideo ym meysydd cerddoriaeth, chwaraeon, crefydd ac addysg):

- C B.16 Beth yw eich asesiad cyffredinol o ba un a fyddai'r opsiwn hwn yn gweithio, a pham?
- C B.17 A oes unrhyw anfanteision allweddol i'r opsiwn hwn yn eich barn chi? A allai'r opsiwn hwn gael ei addasu i oresgyn unrhyw broblemau?
- C B.18 Beth yw manteision allweddol yr opsiwn hwn yn eich barn chi?
- C B.19 Yn eich barn chi, sut byddai'r opsiwn hwn yn gweithio ar gyfer y rhanddeiliaid allweddol canlynol:
- defnyddwyr
 - y diwydiant
 - asiantaethau gorfodi?
- C B.20 A oes unrhyw beth a fyddai'n gwella'r opsiwn hwn ar gyfer unrhyw un o'r rhanddeiliaid?
- C B.21 A yw'r opsiwn hwn yn ffordd gymesur o sicrhau trefn reoleiddio?
- C B.22 Yn eich barn chi, a oes unrhyw ddata, ffeithiau, ffigurau neu wybodaeth y dylai'r Llywodraeth eu hystyried wrth fynd ati i asesu'r opsiwn hwn?
- C B.23 Gallai'r opsiwn hwn ddileu'r posibilrwydd y gallai rhai gemau fideo sy'n ymwneud yn bennaf â cherddoriaeth, chwaraeon, crefydd ac addysg hawlio eithriad. Pa dystiolaeth sydd yna i ddangos bod nifer sylweddol o'r cyfryw gynhyrchion? Pa effaith y gallai'r opsiwn hwn ei chael arnynt?

Q B.24 A oes unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud? Rhowch y manylion yma.

Opsiwn 2 (gostwng y trothwyon statudol presennol ar gyfer eithrio fel bod mwy o gynhyrchion yn ddarostyngedig i'r broses ddsbarthu):

C B.25 Beth yw eich asesiad cyffredinol o ba un a fyddai'r opsiwn hwn yn gweithio, a pham?

C B.26 A oes unrhyw anfanteision allweddol i'r opsiwn hwn yn eich barn chi? A allai'r opsiwn hwn gael ei addasu i oresgyn unrhyw broblemau?

C B.27 Beth yw manteision allweddol yr opsiwn hwn yn eich barn chi?

C B.28 Yn eich barn chi, sut byddai'r opsiwn hwn yn gweithio ar gyfer y rhanddeiliaid allweddol canlynol:

- defnyddwyr
- y diwydiant
- asiantaethau gorfodi?

C B.29 A oes unrhyw beth a fyddai'n gwella'r opsiwn hwn ar gyfer unrhyw un o'r rhanddeiliaid?

C B.30 A yw'r opsiwn hwn yn ffordd gymesur o sicrhau trefn reoleiddio?

C B.31 Yn eich barn chi, a oes unrhyw ddata, ffeithiau, ffigurau neu wybodaeth y dylai'r Llywodraeth eu hystyried wrth fynd ati i asesu'r opsiwn hwn?

C B.33 A oes unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud? Rhowch y manylion yma.

Opsiwn 3 (cynllun hunanreoleiddio gwirfoddol sy'n rhoi cyngor i rieni):

C B.34 Beth yw eich asesiad cyffredinol o ba un a fyddai'r opsiwn hwn yn gweithio, a pham?

C B.35 A oes unrhyw anfanteision allweddol i'r opsiwn hwn yn eich barn chi? A allai'r opsiwn hwn gael ei addasu i oresgyn unrhyw broblemau?

C B.36 Beth yw manteision allweddol yr opsiwn hwn yn eich barn chi?

C B.37 Yn eich barn chi, sut byddai'r opsiwn hwn yn gweithio ar gyfer y rhanddeiliaid allweddol canlynol:

- defnyddwyr

- y diwydiant
 - asiantaethau gorfodi?
- C B 38 A oes unrhyw beth a fyddai'n gwella'r opsiwn hwn ar gyfer unrhyw un o'r rhanddeiliaid?
- C B.39 A yw'r opsiwn hwn yn ffordd gymesur o sicrhau trefn reoleiddio?
- C B.40 Yn eich barn chi, a oes unrhyw ddata, ffeithiau, ffigurau neu wybodaeth y dylai'r Llywodraeth eu hystyried wrth fynd ati i asesu'r opsiwn hwn?
- C B.41 A oes unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud? Rhowch y manylion yma.

ATODIAD A

DARN O ADRAN 2 O'R DDEDDF RECORDIADAU FIDEO

2. Exempted works.

— (1) *Subject to subsection (2) or (3) below, a video work is for the purposes of this Act an exempted work if, taken as a whole—*

- (a) it is designed to inform, educate or instruct;*
- (b) it is concerned with sport, religion or music; or*
- (c) it is a video game.*

(2) A video work is not an exempted work for those purposes if, to any significant extent, it depicts—

- (a) human sexual activity or acts of force or restraint associated with such activity;*
- (b) mutilation or torture of, or other acts of gross violence towards, humans or animals;*
- (c) human genital organs or human urinary or excretory functions;*
- (d) techniques likely to be useful in the commission of offences;*

or is, is likely to any significant extent to stimulate or encourage anything falling within paragraph (a) or, in the case of anything falling within paragraph (b), is likely to any extent to do so.

(3) A video work is not an exempted work for those purposes if, to any significant extent, it depicts criminal activity which is likely to any significant extent to stimulate or encourage the commission of offences.

ATODIAD B

RHESTR O'R SEFYDLIADAU YR YMGYNGHORWYD Â HWY

Bwrdd Dosbarthu Ffilmiau Prydain
CEOP
Consortiwm Manwerthu Prydain
Cymdeithas Genedlaethol y Masnachwyr Marchnad
Cymdeithas Fideo Prydain
Cymdeithas Ffonograffig Prydain
Cymdeithas Llywodraeth Leol
Cymdeithas Manwerthwyr Annibynnol Prydain
Cymdeithas Seicolegol Prydain
Cymdeithas yr Athrawon a'r Darlithwyr
Childnet International
Christian Concern for Our Nation
Digital Cinema Media
Focus Multimedia
ISFE
Llais Defnyddwyr
Mediawatch
MumsNet
NSPCC
Pearl and Dean
Sefydliad Gwylio'r Rhynggrwyd
Tasglu Llythrennedd Cyfryngol
UK Interactive Entertainment (UKIE)
Y Bwrdd Plant a Phobl Ifanc
Y Cyngor Safonau Fideo
Y Gwasanaeth Heddlu Metropolitan
Y Gymdeithas Arddangoswyr Sinema
Y Gymdeithas Cyflenwyr Ffilm
Y Gymdeithas Hysbysebion Sinema
Y Gymdeithas Hysbysebu
Y Gymdeithas Manwerthu Adloniant
Yr Awdurdod Safonau Hysbysebu

ATODIAD C

Y SAITH MAEN PRAWF YMGYNGHORI

1. Pryd y dylid ymgynghori
Dylid cynnal ymgynghoriad ffurfiol pan fo modd dylanwadu ar ganlyniad polisi.
2. Hyd ymarferion ymgynghori
Fel arfer, dylai ymgynghoriadau bara 12 wythnos o leiaf gan ystyried amserlenni hwy lle bo hynny'n ymarferol ac yn synhwyrol.
3. Eglurder o ran cwmpas ac effaith
Dylai dogfennau'r ymgynghoriad nodi'n glir y broses ymgynghori, yr hyn a gynigir, faint o ddylanwad y gellid ei gael a chostau a buddiannau disgwylidig y cynigion.
4. Hygyrchedd ymarferion ymgynghori
Dylai'r ymarferion ymgynghori gael eu cynllunio mewn modd sy'n eu gwneud yn hygyrch i'r bobl hynny y bwriedir iddynt eu cyrraedd, a dylent gael eu targedu atynt.
5. Y baich ymgynghori
Mae'n hanfodol sicrhau bod ymgynghoriadau mor ddidrafferth â phosibl er mwyn iddynt fod yn effeithiol ac er mwyn i'r ymgynghoreion gyfrannu.
6. Ymatebolrwydd ymarferion ymgynghori
Dylai'r ymatebion i'r ymgynghoriad gael eu dadansoddi'n ofalus a dylid rhoi adborth clir i'r rhai sydd wedi cyfrannu yn dilyn yr ymgynghoriad.
7. Gallu i ymgynghori
Dylai'r swyddogion sy'n cynnal ymgynghoriadau geisio arweiniad ar sut i gynnal ymarfer ymgynghori effeithiol a rhannu'r hyn a ddysgwyd ganddynt o'r profiad.

Cyfrinachedd a Diogelu Data

Gellir cyhoeddi neu ddatgelu gwybodaeth a roddir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, yn unol â chyfundrefnau mynediad at wybodaeth (sef Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 1998 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn bennaf).

Os ydych am i'r wybodaeth a ddarperir gennych gael ei thrin yn gyfrinachol, byddwch yn ymwybodol, o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, fod Cod Ymarfer statudol y mae'n ofynnol i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef ac sy'n ymdrin â rhwymedigaethau cyfrinachedd ymhlith pethau eraill.

Yng ngoleuni hyn, byddai'n ddefnyddiol pe baech yn gallu egluro i ni pam y teimlwch fod y wybodaeth a ddarparwyd gennych yn gyfrinachol. Os byddwn yn cael cais i ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn ystyried eich esboniad yn llawn, ond ni allwn sicrhau y caiff y wybodaeth ei chadw'n gyfrinachol ymhob achos. Ni chaiff

ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG ei ystyried ynddo'i hun yn gyfrwymol ar yr Adran.

Bydd yr Adran yn prosesu eich data personol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data ac yn y mwyafrif o achosion, bydd hyn yn golygu na chaiff eich data personol ei ddatgelu i unrhyw drydydd partion.



department for
**culture, media
and sport**

2-4 Cockspur Street
London SW1Y 5DH
www.culture.gov.uk